






# Ymchwil ar Gyfleusterau Cymunedol

Adroddiad Terfynol ar gyfer
Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

ADDITIONAL RESEARCH

Medi
2020

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND

# Cynnwys

This document is also available in English.


**Crynodeb gweithredol** 5

**Cyflwyniad** 5

Ynglŷn â'r deiliaid grant . . . 6

Heriau i ddeiliaid grant . . . 7

Gwersi rheoli . . . 8

Casgliadau . . . 9

Argymhellion . . . 9

**1 Cyflwyniad** 11

1.1 Diben yr adroddiad hwn . . . 11

1.2 Cyd-destun . . . 11

1.3 Amcanion yr ymchwil . . . 11

1.4 Strwythur yr adroddiad . . . 12

**2 Dulliau** 13

Cyflwyniad . . . 13

2.1 Ymchwil cynradd . . . 13

2.1.1 Ymgynghori â budd-ddeiliad . . . 13

2.1.2 Arolwg holiadur deiliad grant. . . . 14

2.1.3 Astudiaethau achos . . . 15

2.1.4 Dadansoddi ac adrodd . . . 15

**3 Canfyddiadau** 16

3.1 Cyflwyniad . . . 16

3.2 Ymagweddau a chyd-destun cyfredol . . . 16

3.2.1 Daearyddiaeth . . . 16

3.2.2 Mathau o endidau . . . 17

3.2.3 Mathau o berchnogaeth asedau . . . 18

3.2.4 Amrediad o wasanaethau a ddarperir . . . 19

3.2.5 Strwythur cyflwyno . . . 20

3.2.6 Amrediad o ffynonellau incwm a phrif ffynonellau incwm. . . . 22

3.3 Heriau . . . 24

3.3.1 Newid mewn incwm . . . 24

3.3.2 Heriau a nodwyd gan ymatebwyr . . . 25

3.3.3 Y tair blynedd nesaf . . . 28
3.3.4 Ffynonellau cefnogaeth . . . 30
3.3.5 Ffactorau lleol a chyd-destunol . . . 33
3.4 Gwersi rheoli a chynaladwyedd . . . 37
3.4.1 Gwersi rheoli . . . 37
3.4.2 Gwersi ar gyfer cynaliadwyedd hir dymor . . . 40
3.5 Buddion cymunedol . . . 41

**4 Astudiaethau achos** **45**
4.1 Cyflwyniad . . . 45
4.2 Ogofâu margate, ardal thanet, caint . . . 45
4.3 Canolfan ieuenctid a chymunedol netherholm, Castlemilk, Glasgow . . . 46
4.4 Access Employment Ltd., Larne . . . 47
4.5 Galeri caernarfon cyf . . . 48
4.6 Gwersi . . . 49

**5 Casgliadau ac argymhellion** **50**
5.1 Casgliadau . . . 50
5.2 Argymhellion . . . 51

**Atodiadau** **53**
A. Adolygiad llenyddiaeth . . . 53
B. Canllaw pynciau i fudd-ddeiliad . . . 53
C. Rhestr o ymgyngoreion . . . 53
D. Holiadur yr arolwg . . . 54

## Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1 Maes buddiant daearyddol ased cymunedol . . . 17
Ffigur 3.2 Math o fudiad . . . 18
Ffigur 3.3 Math o berchnogaeth . . . 19
Ffigur 3.4 Prif weithgaredd neu wasanaeth cymunedol . . . 20
Ffigur 3.5 Cyflwyno gweithgareddau/gwasanaethau . . . 21
Ffigur 3.6 Prif ffynhonnell incwm . . . 22
Ffigur 3.7 Amrediad o ffynonellau incwm . . . 23
Ffigur 3.8 Newid mewn incwm o'r prif ffynonellau (dros y pum mlynedd diwethaf) . . . 25
Ffigur 3.9 Heriau a wynebir gan ymatebwyr . . . 26

Ffigur 3.10 Yr her o redeg ased cymunedol dros y 3 blynedd nesaf . . . . . . . . . . . . . 29
Ffigur 3.11 Ffynonellau cefnogaeth anariannol (fesul cant o ymatebion, cwestiwn amlddewis) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 31
Ffigur 3.12 Ffynonellau cymorth. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 32
Ffigur 3.13 Lleoliad yn ôl perfformiad ariannol disgwyliedig . . . . . . . . . . . . . . . . . . 34
Ffigur 3.14 Maint mudiad yn ôl perfformiad ariannol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 35
Ffigur 3.15 Heriau sy'n effeithio 'llawer iawn neu'n fawr' yn ôl maint mudiad . . . . . . 36
Ffigur 3.16 Heriau sy'n effeithio 'llawer iawn neu'n fawr' gan fudiadau sy'n disgwyl gwneud colled eleni . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 37
Ffigur 3.17 Ffactorau pwysicaf ar gyfer cynnal ased cymunedol . . . . . . . . . . . . . . . 38
Ffigur 3.18 Cwmwl geiriau'r ffactorau pwysicaf ar gyfer cyflwyno ased cymunedol cynaliadwy . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 38
Ffigur 3.19 Prif amcanion asedau cymunedol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 42
Ffigur 3.20 Defnyddwyr asedau cymunedol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 43
Ffigur 3.21 Bodloni'r prif amcanion (y mwyaf heriol) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 44

## Rhestr o dablau

Tabl 2.1 Canlyniadau'r arolwg . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 14
Tabl 3.1 Ffynhonnell incwm yn ôl maint y mudiad. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 24
Tabl 3.2 Ffynhonnell incwm yn ôl daearyddiaeth . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 24
Tabl 3.3 Yr her o redeg ased cymunedol dros y 3 blynedd nesaf yn ôl daearyddiaeth . . 29
Tabl 3.4 Yr her o redeg ased cymunedol dros y 3 blynedd nesaf yn ôl prif weithgaredd neu wasanaeth cymunedol . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 30

Atodiad tabl 1 rhestr o ymgyngoreion . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . 53

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion prosiect ymchwil a gynhaliwyd ar ran Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (y Gronfa) ynghylch rheolaeth effeithiol a chynaliadwyedd tymor hir cyfleusterau cymunedol.

Er bod gwaith blaenorol o fewn y Gronfa wedi datblygu tystiolaeth am drosglwyddo asedau cymunedol fel ffocws proses a pholisi, nid oes cymaint yn hysbys am yr hyn sydd ei angen i reoli a chynnal ased cymunedol effeithiol. Mae'r ymchwil hon yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch hwn, gan dynnu sylw at sawl her benodol sy'n wynebu prosiectau. Bydd hyn yn helpu prosiectau ac arianwyr i ddatblygu strategaethau ymhellach i ymateb i'r heriau hyn.

Nod yr ymchwil yw adolygu'r dystiolaeth bresennol a chyfrannu gwybodaeth newydd am sut y gellir rheoli a chynnal cyfleusterau cymunedol yn effeithiol, er mwyn cynyddu dealltwriaeth o fewn y Gronfa, ymhlith cwsmeriaid y Gronfa, ac yn y sector cymdeithas sifil ehangach am yr hyn sy'n ofynnol er mwyn i gymunedau redeg asedau yn effeithiol. Mae'r ymchwil ledled y DU o ran cwmpas ac yn defnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys ymgynghori â budd-ddeiliaid, arolwg deiliaid grantiau ac astudiaethau achos.

## Ynglŷn â'r Deiliaid Grant*

- 42% o brosiectau wedi'u lleoli mewn cylch gwledig neu bentref bach
- 30% o brosiectau wedi'u lleoli mewn ardal o anfantais cymdeithasol neu economaidd
- Dros 80% o ddeiliaid grant yn elusennau neu grwpiau cymunedol
- Mae dros hanner o ddeiliaid grant yn berchen ar eu ased, a 36% yn gweithredu drwy brydles
- Y gweithgaredd mwyaf cyffredin yw darparu neuadd gymunedol neu ardal gyfarfod
- Mae treuan o ddeiliaid grant yn dibynnu ar ystafell gyfarfod neu logi neuadd fel prif ffynhonnell eu hincwm, gydag arian grant yn ail mewn pwysigrwydd

*Cyfranogwyr yr arolwg ymchwil.

## Heriau I Ddeiliaid Grant*

- 33% o ddeiliaid grant yn adrodd dirywiad yn lefel grantiau sector cyhoeddus
- Y 3 her mwyaf oedd diffyg arian grant, cyflwr gwael ar yr ased ynghynt, a sylfaen incwm gul
- Mae 3/4 o brosiectau yn disgwyl iddo fod yn 'eithaf' i 'hynod' o anodd i redeg eu ased cymunedol dros y 3 mlynedd nesaf
- Mae budd-ddeiliaid yn edrych ar yr heriau cynyddol i grwpiau cymunedol wrth recriwtio aelodau bwrdd gwirfoddol
- Ychydig dros dreuan o sefydliadau cymunedol sy'n cael mynediad i gefnogaeth cyfryngau cymdeithasol
- Mae un ym mhob dau grŵp yn cael mynediad i gefnogaeth codi arian, ond dim ond un ym mhob pump i gynllunio busnes
- Deiliaid grantiau mewn ardal trefol canolog neu ardal penodol o anfantais cymdeithasol neu economaidd oedd y lleiaf tebygol o ddisgwyl gwarged eleni
- Roedd mwy o sefydliadau bach a chanolig yn disgwyl gwneud gwarged eleni na sefydliadau mawr

*Cyfranogwyr yr arolwg ymchwil.

## Gwersi Rheoli*

- **Cynllunio prosiect effeithiol:** nododd budd-ddeiliaid gynlluniau afrealistig fel rheswm allweddol dros fethu
- **Cymysgedd sgiliau:** y cymysgedd cywir o sgiliau sy'n hanfodol gyda diffyg gwybodaeth fasnachol y bwlch mwyaf
- **Cynllunio olyniaeth:** hanfodol i adeiladu y tu hwnt i'r tîm craidd ar gyfer syniadau newydd a chynaliadwyedd yn y dyfodol
- **Perchnogaeth asedau:** mae bod yn berchen ar yr ased yn caniatáu i gymunedau godi cyllid ac yn rhoi sicrwydd
- **Cyllid wrth gefn:** mae diffyg cyllid ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus yn berygl allweddol
- **Cymorth yn y cyfnodau cynnar:** mae gan lawer daith galed yn yr un i ddwy flynedd gyntaf, ac mae angen cymorth arnynt
- **Atgyfnerthu:** canfyddiad cyffredin nad yw arianwyr yn edrych yn ffafriol ar grantiau parhad
- **Gwelliannau effeithlonrwydd:** mae canolbwyntio ar ddileu gwastraff a buddsoddi ar gyfer y tymor hir yn bwysig
- **Arallgyfeirio incwm:** mae peidio â bod yn orddibynnol ar nifer fach o ffynonellau yn allweddol i weithgarwch parhaus
- **Cymorth cymunedol:** Ymrwymiad pobl leol yn gwneud gwahaniaeth mawr i gynaliadwyedd
- **Datblygu gwirfoddolwyr:** sylfaen gref o wirfoddolwyr yn ffactor allweddol a nodwyd gan lawer o ymatebwyr yr arolwg

**Brwdfrydedd:** elfen anniriaethol hanfodol a nodwyd gan lawer i gynnal a sbarduno cynnydd prosiectau

**Gweithio mewn partneriaeth:** budd-ddeiliaid yn pwysleisio pwysigrwydd rhwydweithiau ar gyfer dysgu

*Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r holl gyfranogwyr ymchwil.

## Casgliadau

Mae fframwaith 'Thriving Communities' y Gronfa yn cysyniadu'r gwahaniaeth y maent yn ceisio ei wneud trwy arian y Loteri Genedlaethol. Mae'r fframwaith yn arbennig o berthnasol i'r ymchwil hon oherwydd ei fod yn tynnu sylw at rôl lleoedd a gofodau, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol, wrth alluogi cymunedau i ffynnu. Mae ein hymchwil yn tynnu sylw at y rôl bwysig ac amrywiol mae prosiectau a gefnogir yn eu gwneud ledled y DU wrth alluogi cymunedau i fynd i'r afael ag ystod o amcanion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, yn aml mewn ardaloedd difreintiedig.

## Argymhellion

Gwneir yr argymhellion canlynol:

1. **Dadansoddiad o gystadleuwyr:** Dylai arianwyr ofyn am ddadansoddiad realistig o gystadleuwyr fel rhan o geisiadau prosiect, a dylai arianwyr ddarparu arweiniad i brosiectau ar y camau allweddol gofynnol. Perchennog: Arianwyr.
2. **Mapio gweithgareddau a gwasanaethau:** Byddai cynnal cyfeirlyfrau lleol o asedau cymunedol a'r gwasanaethau a ddarperir yn cynorthwyo gyda dadansoddi cystadleuwyr. Bydd mapio asedau'n barhaus (asedau a drosglwyddir, nid y rhai sydd ar gael i'w trosglwyddo yn unig) hefyd yn cynorthwyo awdurdodau i flaenoriaethu math a lleoliad asedau i'w trosglwyddo yn y dyfodol. Perchennog: Awdurdodau lleol ac Arianwyr.
3. **Sicrhau bod meini prawf ariannu ar gyfer parhad prosiectau da yn cael eu cyfleu i Ddeiliaid Grant:** Dylid adolygu cyfathrebiadau ynghylch meini prawf ariannu ar gyfer cefnogaeth, er mwyn dileu unrhyw gamsyniad gan ddeiliaid grant bod angen gweithgaredd 'newydd' er mwyn bod yn gymwys. Perchennog: Arianwyr.
4. **Arian wrth gefn a chynnal a chadw:** Dylai arianwyr annog prosiectau i gynnal a diweddaru cynlluniau cyllideb sy'n ystyried gofynion wrth gefn, fel rhan o'r gofynion ariannu. Dylai prosiectau gymryd camau i gyllidebu'n realistig a chadw cronfeydd wrth gefn priodol. Gallai hyn hefyd gynnwys cyllidebau realistig ar gyfer blynyddoedd cynnar yn benodol (hyd at 18 mis) tra bod grwpiau'n sefydlu eu hunain. Perchennog: Arianwyr a Phrosiectau.

5. **Cynllunio ar gyfer olyniaeth:** Dylai arianwyr annog prosiectau, fel rhan o ofynion ariannu, i nodi camau priodol i sicrhau parhad yn eu rheolaeth. Byddai prosiectau'n elwa o ymdrechion mwy eglur a chydunol i ddatblygu adnoddau yn y dyfodol sy'n ofynnol i reoli eu prosiect yn gynaliadwy. Perchennog: Arianwyr a Phrosiectau.
6. **Cynnal a chadw arweiniad:** Er nad oes prinder canllawiau ar gael ar gyfer prosiectau ar hyn o bryd, mae'r amgylchedd ariannu newidiol yn ei gwneud hi'n bwysig bod Arianwyr yn adolygu'r adnoddau hyn, yn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu rheoliadau cyfredol ac arfer da. Perchennog: Arianwyr.
7. **Datblygu rhwydwaith lleol:** Dylai arianwyr ac Awdurdodau Lleol wneud mwy i hwyluso ac annog prosiectau i wneud y mwyaf o gysylltiadau â mentrau cysylltiedig eraill yn eu hardal, i leihau dyblygu, gor-gyflenwi (lle bo hynny'n berthnasol), a rhannu adnoddau a phrofiad ymhellach. Perchennog: Arianwyr, Awdurdodau lleol.
8. **Dysgu rhwng cymheiriaid a mentora:** Yn benodol, dylai arianwyr, awdurdodau lleol a phrosiectau geisio datblygu ymhellach a chynnal rhwydweithiau dysgu a mentora rhwng cymheiriaid o ansawdd da gyda gweithgareddau strwythuredig a pherthnasol. Perchennog: Arianwyr, Awdurdodau lleol a Phrosiectau.
9. **Cefnogaeth i brosiectau mewn ardaloedd trefol/ardaloedd difreintiedig:** Mae'r ymchwil yn awgrymu blaenoriaethu cefnogaeth a/neu gyngor tuag at y mudiadau hynny sy'n cael eu herio fwyaf gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd trefol, ac ardaloedd o fantais gymdeithasol/economaidd. Gall swyddogaeth rheoli cyfrifon fod yn briodol ar gyfer mudiadau mwy (mae rheolwr cyfrifon yn cynnal perthynas mudiad â chleient neu grŵp o gleientiaid). Perchennog: Arianwyr.
10. **Mabwysiadu pecynnau ariannu creadigol:** Dylai cynllunio da ystyried y model ariannu mwyaf priodol ar gyfer caffael neu adnewyddu cyfleusterau cymunedol. Gallai hyn gynnwys rhoi mwy o ystyriaeth i fuddsoddiad cymdeithasol (gan grwpiau ac Arianwyr eraill) a ffynonellau megis cyfranddaliadau cymunedol/cyllido torfol (fel modd o gynyddu cyfranogiad cymunedol). Perchennog: Arianwyr a Phrosiectau.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Diben yr adroddiad hwn

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion prosiect ymchwil a gynhaliwyd ar ran Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (y Gronfa) ynghylch rheolaeth effeithiol a chynaliadwyedd hir dymor cyfleusterau cymunedol.

## 1.2. Cyd-destun

Nod yr ymchwil yw adolygu'r dystiolaeth bresennol a chyfrannu gwybodaeth newydd am sut y gellir rheoli a chynnal cyfleusterau cymunedol yn effeithiol, er mwyn cynyddu dealltwriaeth o fewn y Gronfa, ymhlith cwsmeriaid y Gronfa, ac yn y sector cymdeithas sifil ehangach am yr hyn y mae'n ei gymryd i gymunedau redeg asedau yn effeithiol. Mae'r ymchwil yn ymwneud â'r DU gyfan.

Mae fframwaith 'Thriving Communities' y Gronfa yn cysyniadu'r gwahaniaeth y maent yn ceisio ei wneud trwy ei hariannu. Mae'r fframwaith yn arbennig o berthnasol i'r ymchwil hon oherwydd ei fod yn tynnu sylw at rôl lleoedd a gofodau, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol, wrth alluogi cymunedau i ffynnu.

Er bod gwaith blaenorol o fewn y Gronfa wedi datblygu tystiolaeth am drosglwyddo asedau cymunedol fel ffocws proses a pholisi, ni wyddys cymaint am yr hyn sydd ei angen i reoli a chynnal ased cymunedol effeithiol. Mae'r ymchwil a gomisiynwyd yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch hwn.

Cynhelir yr ymchwil yn erbyn cefndir o bwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus, lleihau adnoddau, newid demograffeg ac ystod o ansicrwydd sy'n deillio o faterion megis Brexit a Diwygio Lles. Yn y cyd-destun hwn, ni fu pwysigrwydd adeiladu cyfoeth cymunedol, twf cynhwysol a rheoli'r galw am wasanaethau cyhoeddus mewn modd cynaliadwy erioed yn bwysicach.

## 1.3. Amcanion yr ymchwil

Mae amcanion yr ymchwil fel a ganlyn:

- Nodi a chrynhoi tystiolaeth bresennol ar reoli a chynnal cyfleusterau cymunedol;
- Cynhyrchu tystiolaeth newydd am y dulliau cyfredol o reoli a chynnal cyfleusterau cymunedol, heriau a pheryglon cyffredin, a datrysiadau effeithiol i'r rhain, arloesiadau addawol ac arfer da;
- Nodi a/neu ddatblygu astudiaethau achos sy'n tynnu sylw at wersi allweddol ar gyfer rheoli a chynnal cyfleusterau cymunedol yn effeithiol;
- Deall sut mae ffactorau lleol a chyd-destunol yn effeithio ar heriau a datrysiadau wrth redeg cyfleusterau cymunedol;
- Archwilio'r gwahaniaeth a wneir gan asedau cymunedol a deall rhai o'r ffyrdd y mae cyfleusterau cymunedol effeithiol a chynaliadwy yn galluogi cymunedau i ffynnu; a
- Gwneud argymhellion ynghylch pa gamau y gallai'r Gronfa eu cymryd a, lle bo hynny'n berthnasol, gan lywodraeth leol a chenedlaethol, arianwyr eraill, cyrff isadeiledd y trydydd sector neu fudd-ddeiliaid eraill i gefnogi asedau cymunedol effeithiol a chynaliadwy.

## 1.4. Strwythur yr adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad yn dilyn y drefn ganlynol:

- Pennod 2 Dulliau;
- Pennod 3 Canfyddiadau;
- Pennod 4 Casgliadau ac rrgymhellion; ac
- Atodiadau.

# 2. Dulliau

## Cyflwyniad

Gweithiodd yr awduron yn agos gyda'r Gronfa i ddatblygu dull a oedd yn cwrdd â nodau ac amcanion yr aseiniad. Nodwn isod ymagwedd yr ymchwil a phrif gamau'r ymchwil[1]:

1. Gwaith maes
    a. Ymgynghori â budd-ddeiliad;
    b. Arolwg deiliaid grant;
    c. Astudiaethau achos;
2. Dadansoddiad ac Adborth Cychwynnol; ac
3. Adroddiad Terfynol.

Mae'r ymagwedd arfaethedig yn defnyddio cyfuniad o ddulliau, gan adlewyrchu nodau'r astudiaeth, ystod y grwpiau o fudd-ddeiliaid, a'r adnoddau sydd ar gael.

## 2.1. Ymchwil cynradd

Mae'r ymagwedd yn defnyddio cyfuniad o ddulliau, gan adlewyrchu nodau'r astudiaeth, ystod y grwpiau o fudd-ddeiliaid, a'r adnoddau sydd ar gael. Ymhlith y prif ddulliau mae'r canlynol:

1. Cyfweliadau manwl, lled-strwythuredig gyda budd-ddeiliaid dethol;
2. Arolwg o dderbynyddion grantiau a gefnogir gan y Gronfa sy'n ymwneud â chyfleusterau cymunedol (rhai blaenorol a chyfredol); ac
3. Ymchwil astudiaethau achos yn edrych yn fanwl ar nifer fechan o achosion.

### 2.1.1. Ymgynghori â budd-ddeiliad

Cynhaliwyd ymgynghoriadau â chynrychiolwyr budd-ddeiliaid er mwyn asesu cwestiynau'r ymchwil a'r meysydd i'w hystyried. Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau trwy gyfweliad ffôn lled-strwythuredig. Datblygwyd canllawiau pwnc i gefnogi'r ymgynghoriadau cyn y gwaith maes a'u cyflwyno i'r Gronfa i'w hadolygu a rhoi sylwadau arnynt. Cafodd y canllawiau hyn eu llywio gan amcanion yr ymchwil a amlinellir uchod (gweler Atodiad B).

Yn y cyfweliadau fe ymagwedd bragmatig yn cyfuno samplu damcaniaethol (lle mae unigolion a mudiadau y cysylltir â hwy yn deillio o gasglu data parhaus ac ymgynghori â'r Gronfa, gan ddefnyddio dull matrics fel y disgrifir yn y cynnig i nodi'r unigolion/mudiadau â blaenoriaeth i'w cynnwys), gyda samplu bwriadol, cyfleus a phelen eira (lle mae awgrymiadau newydd yn deillio o drafodaeth a datblygu ymwybyddiaeth unigolion/mudiadau perthnasol).

Yn ogystal, roedd ymgynghoriadau'n cynnwys rheolwyr prosiect y Gronfa i ddehongli dogfennau cefndir ac i roi'r darlun diweddaraf o faterion sy'n effeithio ar y pwnc. Fe dynnom ar gysylltiadau ymchwil a nodwyd fel a ganlyn:

1 Gwnaed adolygiad ar wahân o ddogfennau cefndir yn ymwneud â rheoli cyfleusterau cymunedol gan gynnwys tystiolaeth ymchwil flaenorol a dogfennaeth strategaeth/polisi berthnasol. Roedd y dogfennau hyn yn cynnwys canfyddiadau gwaith gwerthuso a mewnwelediad blaenorol a gomisiynwyd neu a gynhaliwyd gan y Gronfa ar raglenni asedau cymunedol (gweler Atodiad A).

1. O wybodaeth y cyflenwr am fudiadau sy'n ymwneud ag ymchwil gysylltiedig ddiweddar;
2. O'r ffynonellau a nodwyd fel rhan o'r ymchwil ddesg a amlinellir uchod;
3. O ymgynghori â chynrychiolwyr y Gronfa fel rhan o'r cyfarfod cychwyn ac ymgynghoriadau eraill; ac
4. O ddefnyddio methodoleg ailadroddol neu 'belen eira', gan ddefnyddio'r cysylltiadau uchod i nodi mudiadau ychwanegol ar gyfer cyswllt a dilyniant dilynol.

Cynhaliom 21 cyfweliad â budd-ddeiliaid fel yr amlinellwyd yn Atodiad C.

### 2.1.2. Arolwg holiadur deiliad grant

Cynhaliom arolwg holiadur cryno gyda'r nod o gasglu ystod o adborth meintiol ac ansoddol oddi wrth y budd-ddeiliaid dethol sy'n berthnasol i'r cwestiynau ymchwil. Roedd y grŵp ymchwil hwn yn cynnwys derbynyddion grant blaenorol a chyfredol y Gronfa.

Y boblogaeth ar gyfer y sampl hon oedd mudiadau a gefnogwyd gan y Gronfa yr oedd eu grantiau'n cynnwys cyfleusterau cymunedol. Roedd y ffrâm samplu'n cynnwys rhestr o dderbynyddion perthnasol gyda'r wybodaeth angenrheidiol i gysylltu â'r ymatebwyr (trwy e-bost). Darparwyd y data hwn gan y Gronfa. Cynhaliwyd yr arolwg gan ddefnyddio arf arolygu ar-lein. Datblygwyd holiadur drafft ymlaen llaw a'i gyflwyno i'r Gronfa i'w adolygu a rhoi sylwadau arno (gweler Atodiad D).

Cwblhawyd yr arolwg deiliaid grant rhwng mis Rhagfyr 2019 - Ionawr 2020. Ar 8 Ionawr, roedd yr arolwg wedi derbyn 1,412 ymateb o'r sampl o 4,143 (poblogaeth 11,889). Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 34% (gyda dros 25% yn cael ei ystyried yn dderbyniol yn gyffredinol). Cyfradd cwblhau'r holiadur oedd 91%. Mae'r sampl 4,143 yn darparu lled gwall o 2.45% ar yr hyder o 95% ar gyfer lefel y DU, sy'n lefel uchel o gywirdeb (roedd y sampl yn cynnwys sawl enw cyswllt dyblyg i bob diben, y cyfanswm oedd 4,010 ac felly roedd y lled gwall terfynol ychydig yn uwch).

O edrych ar y prif is-grŵp y samplwyd amdanynt cyn yr arolwg (h.y. maint y mudiad), mae'r canlyniadau hefyd yn dda, gan roi gwall o 5% neu well ar lefel hyder 95% ar gyfer pob maint grŵp ar wahân i rai Mawr/Enfawr/Anferth, sydd â lled gwall mwy, ond sy'n dal yn weddol gywir.

#### Tabl 2.1 Canlyniadau'r arolwg

| | | | | | Lefel Hyder | 95% | 90% |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Poblogaeth | | Sampl | | | Lled Gwall | |
| Mawr/ Enfawr/ Anferth | 1,429 | 12% | 115 | 8% | | 8.8% | 7.4% |
| Canolig | 3,305 | 28% | 383 | 27% | | 4.7% | 4.0% |
| Micro | 2,767 | 23% | 342 | 24% | | 5.0% | 4.2% |
| Bach | 4,388 | 37% | 572 | 41% | | 3.8% | 3.2% |
| Cyfanswm | 11,889 | 100% | 1,412 | 100% | | | |

O edrych ar y sampl is-grŵp ar lefel gwlad, mae'r lled gwallau yn deg ar y lefel hyder o 90%:

- Yr Alban 5.93%;
- Lloegr 6.28%;
- Cymru 7.81%; a
- Gogledd Iwerddon 8.32%.

### 2.1.3. Astudiaethau achos

Cam arall o'r ymchwil oedd cynnal sawl astudiaeth achos o brosiectau rheoli cyfleusterau cymunedol. Defnyddiwyd astudiaethau achos i gael dealltwriaeth fanwl o achosion dethol, gan ddarparu dealltwriaeth o pam, i bwy ac o dan ba amgylchiadau y mae'r prosiectau'n cyflawni eu hamcanion (neu fel arall). Roedd dewis achosion yn gam hanfodol ar gyfer cyffredinoli ac ateb y cwestiynau ymchwil. Dewiswyd achosion yn seiliedig ar drafodaeth gyda'r Gronfa ac roeddent yn adlewyrchu ystyriaeth ystod o ffactorau gan gynnwys lleoliad, graddfa a chyd-destun economaidd-gymdeithasol y prosiect.

### 2.1.4. Dadansoddi ac adrodd

Roedd y cam dadansoddi yn cynnwys holi a synthesis systematig o'r data meintiol ac ansoddol a gasglwyd yn ystod y cyfnod gwaith maes er mwyn ateb amcanion yr ymchwil.

Dadansoddwyd data meintiol yr arolwg gan ddefnyddio arf arolygu ar-lein, Microsoft Excel a SPSS. Defnyddiom feddalwedd dadansoddi ansoddol i goladu adborth ansoddol gan yr amryw gyfranwyr i'r ymchwil, i ddadansoddi'r data ansoddol, ac i nodi themâu cyffredin a materion a ddaeth i'r amlwg.

Roedd adborth y canfyddiadau yn cynnwys adroddiad ysgrifenedig drafft a thrafodaeth wedi'i hwyluso gyda'r Gronfa, er mwyn:

- Cyflwyno a thrafod y prif ganfyddiadau;
- Rhoi cyfle i herio ac egluro canfyddiadau;
- Trafod ac ystyried y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau sy'n gynhenid yn y canfyddiadau hyd yn hyn; ac er mwyn
- Hwyluso trafodaeth gychwynnol ar wersi a ddysgwyd gan gynnwys a defnyddio canfyddiadau.

Daeth y cam olaf â'r holl ddeunydd o'r ymgynghoriadau, ymchwil desg, adborth buddiolwyr, a'r cyfarfod adolygu ynghyd i gynhyrchu'r adroddiad terfynol gan dynnu sylw at ganfyddiadau a chasgliadau allweddol a darparu set o argymhellion/materion i'w hystyried i hysbysu'r broses o gyflenwi yn y dyfodol.

# 3. Canfyddiadau

## 3.1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn archwilio canlyniadau'r ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth, gyda thystiolaeth newydd am ddulliau cyfredol o reoli a chynnal cyfleusterau cymunedol. Mae'r canfyddiadau'n mynd i'r afael â heriau a pheryglon cyffredin, yn ogystal â datrysiadau effeithiol, datblygiadau arloesol addawol ac arfer da. Mae ein dadansoddiad yn ceisio deall sut mae ffactorau lleol a chyd-destunol yn effeithio ar heriau a datrysiadau wrth redeg cyfleusterau cymunedol ac yn archwilio rhai o'r ffyrdd y mae cyfleusterau cymunedol effeithiol a chynaliadwy yn galluogi cymunedau i ffynnu.

Mae'r adolygiad o dystiolaeth a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth ac a adroddwyd ar wahân (gweler Atodiad A) yn tynnu sylw at dirwedd sy'n esblygu mewn perthynas â rheoli cyfleusterau cymunedol yn effeithiol. Mae grwpiau cymunedol yn parhau i lwyddo i reoli cyfleusterau cymunedol, er gwaethaf heriau parhaus, yn anad dim cyfyngiadau cyllidol i'r sector cyhoeddus a'r angen i gynhyrchu ffrydiau incwm amgen. Er gwaethaf heriau elw isel a chyfaddawdau rhwng cynhyrchu incwm a'u cenhadaeth gymunedol, mae grwpiau serch hynny yn goroesi ac yn sicrhau bod cyfleusterau cymunedol ar gael i'w cymunedau.

Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod y siwrnai ar gyfer grwpiau cymunedol ymhell o fod yn hawdd, a bod angen llawer o gefnogaeth. Ar hyd y ffordd, mae rhai grwpiau a chyfleusterau yn cwympo wrth ymyl y ffordd, ac mae rhai grwpiau yn cael eu hannog i beidio â rheoli cyfleusterau. Gall ei gwneud hi'n haws i grwpiau reoli cyfleusterau - yn enwedig mudiadau newydd - helpu i adeiladu'r cyfoeth cymunedol y byddai cymaint o gymunedau yn elwa ohono.

Mae canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth ac ymchwil cynradd yn llywio ein hargymhellion ynghylch pa gamau y gallai'r Gronfa eu cymryd a, lle bo hynny'n berthnasol, gan lywodraeth leol a chenedlaethol, arianwyr eraill, cyrff isadeiledd y trydydd sector neu fudd-ddeiliaid eraill i gefnogi asedau cymunedol effeithiol a chynaliadwy.

## 3.2. Ymagweddau a chyd-destun cyfredol

### 3.2.1. Daearyddiaeth

**42% o brosiectau wedi'u lleoli mewn cylch gwledig neu bentref bach**

**30% o brosiectau wedi'u lleoli mewn ardal o anfantais cymdeithasol neu economaidd**

Mae tystiolaeth o'r arolwg deiliaid grantiau yn dangos bod cyd-destun daearyddol ymatebwyr deiliaid grantiau yn amrywio'n fawr, fel y dangosir yn Ffigur 3.1, witgyda chymysgedd o brosiectau gwledig a threfol, a chyfran sylweddol yn cynrychioli ardal o anfantais gymdeithasol neu economaidd, gan gadarnhau pwysigrwydd posibl prosiectau a ariennir o ran mynd i'r afael ag anghenion economaidd, cymdeithasol ac adfywio nifer o gymunedau.

## Ffigur 3.1 Maes buddiant daearyddol ased cymunedol




Ffynhonnell: Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C4. n= 1,127.

### 3.2.2. Mathau o endidau

**Mae dros 80% o ddeiliaid grant yn elusennau neu grwpiau cymunedol**

Elusennau neu grwpiau cymunedol yw mwyafrif y mudiadau grantî (dros 80%). Mae'r gweddill ar sawl ffurf (Ffigur 3.2), o Gymdeithasau Tai i Fentrau Cymdeithasol, ac o'r herwydd maent yn debygol o feddu ar setiau sgiliau a strwythurau cymorth go eang y gallant ddibynnu arnynt wrth ddylunio a gweithredu prosiectau[2].

2 Roedd y categori 'Arall' gan amlaf yn cynnwys Cynghorau, Ysgolion, cyrff Eglwys, neu glybiau a mudiadau cymunedol eraill mewn trefn ddisgynnol.

### Ffigur 3.2 Math o fudiad




Ffynhonnell: Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C3. n=1,130.

## 3.2.3. Mathau o berchnogaeth asedau

Dros hanner o ddeiliaid grant yn **berchen ar eu ased**, 36% yn gweithredu drwy brydles

Mae'r math o berchnogaeth asedau hefyd yn amrywio gyda'r mwyafrif o ymatebwyr yn berchen ar yr ased yn llwyr, ond gyda 36% yn gweithredu trwy brydles (Ffigur 3.3). Gall hyn effeithio ar y gallu i fenthyca yn erbyn ased: "Mae [perchen ar adeilad] yn llwybr at gynaliadwyedd.... mae'n dangos ar y fantolen a hyd yn oed os ydych chi mewn anawsterau tymor byr mae potensial i fenthyca yn ei erbyn", fel y nododd un budd-ddeiliad [Uwch Swyddog mewn Corff Anllywodraethol M1] ond nid oedd hwn yn fater penodol a godwyd gan nifer o ddeiliaid grantiau.

## Ffigur 3.3 Math o berchnogaeth




Ffynhonnell: Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C6. n=1,107.

### 3.2.4. Amrediad o wasanaethau a ddarperir

Y weithgaredd fwyaf cyffredin yw darparu **neuadd gymunedol neu ardal gyfarfod**

Mae'r ystod o weithgareddau a gwasanaethau cymunedol a ddarperir yn amrywio'n fawr iawn (gweler Ffigur 3.4): y gweithgareddau mwyaf cyffredin yw darparu neuadd gymunedol neu fan cyfarfod, gweithgareddau iechyd neu les, a gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o fudiadau'n ymrwymo mewn nifer o weithgareddau (5.3[3] ar gyfartaledd) gyda rheoli'r ased ffisegol yn un dimensiwn o fenter ehangach. Fel rheol mae gan brosiectau ystod o ffynonellau incwm (3.5[4] ar gyfartaledd).

3 C8 nifer y dewisiadau 5,805 wedi'i rannu gan nifer yr ymatebwyr 1,096.
4 C11 nifer y dewisiadau 3,729 wedi'i rannu gan nifer yr ymatebwyr 1,076.

### Ffigur 3.4 Prif Weithgaredd neu wasanaeth cymunedol




Ffynhonnell: Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C10. n=1,085. Dangosir yr wyth mwyaf cyffredin.

## 3.2.5. Strwythur cyflwyno

Mae yna gymysgedd eang hefyd o ran cyflwyno gweithgareddau a gwasanaethau prosiect uniongyrchol a thrydydd parti - rhai yn darparu'n fewnol, ac eraill yn defnyddio mudiadau trydydd parti i reoli a chyflwyno rhai swyddogaethau. Serch hynny, mae nifer o brosiectau'n chwarae rhan weithredol wrth gyflwyno'n ymarferol (Ffigur 3.5), gyda'r heriau cysylltiedig o ddatblygu a chynnal y gallu gweithredol i gyflwyno i safon broffesiynol, yn yr hyn a all ar adegau fod yn farchnad leol gynyddol orlawn a chystadleuol (e.e. rhentu ystafell gyfarfod, rhentu neuadd, caffis, yn dibynnu ar yr amgylchiadau lleol).

## Ffigur 3.5 Cyflwyno gweithgareddau/gwasanaethau




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C9. Dangosir y deg gweithgaredd/gwasanaeth mwyaf cyffredin.

## 3.2.6. Amrediad o ffynonellau Incwm a phrif ffynonellau incwm

Mae treuan o ddeiliaid grant yn dibynnu ar ystafell gyfarfod neu logi neuadd fel **prif ffynhonnell eu hincwm**, gydag arian grant yn ail mewn pwysigrwydd

Mae ychydig dros draean o ddeiliaid grantiau yr arolwg yn dibynnu ar incwm llogi ystafell gyfarfod neu neuadd fel y brif ffynhonnell incwm ac mae gan ychydig llai na dwy ran o dair ryw fath o incwm o'r ffynhonnell hon. Grantiau yw'r ail brif ffynhonnell incwm unigol. Serch hynny, mae llawer o brosiectau yn defnyddio ystod eang o ffynonellau incwm (fel y nodwyd yn gynharach gyda chyfartaledd o 3.5 ffynhonnell).

Dangosir y brif ffynhonnell incwm yn Ffigur 3.6. Ffigur 3.7 yn dangos a yw ffynhonnell yn gwneud unrhyw gyfraniad i incwm ymatebwyr. Ar y cyfan, ar gyfartaledd, mae tua 32% o'r incwm yn dod o incwm masnachu, gyda 29% o gymorth grant. Mae rhyw 39% o'r incwm yn deillio o amrediad o ffynonellau eraill (e.e. rhoddion) (gweler Tabl 3.1). Mae'n werth nodi bod rhai o'r mudiadau mwyaf (y categori 'enfawr') yn tueddu i fod yn fwy dibynnol ar incwm grant (56% o'r holl incwm) na chategorïau maint eraill. Yn ogystal, ymatebwyr mewn ardal o anfantais gymdeithasol neu economaidd yw'r rhai mwyaf dibynnol ar grantiau fel ffynhonnell incwm (gweler Tabl 3.2).

### Ffigur 3.6 Prif ffynhonnell incwm




Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C13. n=1,058. Dangosir yr wyth mwyaf cyffredin.

## Ffigur 3.7 Amrediad o ffynonellau incwm




Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C11. n=1,076. Dangosir yr wyth mwyaf cyffredin.

### Tabl 3.1 Ffynhonnell incwm yn ôl maint y mudiad

| Ffynhonnell incwm (% Cyfartalog) | Y Cwbl | Anferth | Enfawr | Mawr | Canolig | Bach | Micro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm masnachu | 32.1 | 14.0 | 15.2 | 26.1 | 29.0 | 35.3 | 31.8 |
| Incwm grant | 29.0 | 21.3 | 56.2 | 35.2 | 39.2 | 24.9 | 23.1 |
| Unrhyw incwm arall | 38.8 | 64.8 | 28.7 | 38.7 | 31.8 | 39.7 | 45.1 |

Ffynhonnell; Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C14. n=1,023.

### Tabl 3.2 Ffynhonnell incwm yn ôl daearyddiaeth

| Ffynhonnell incwm (% Cyfartalog) | Ardal wledig neu bentref bach | Pentref mawr neu dref fach | Ardal drefol ganolog | Ardal faestrefol neu gyrion trefol | Ardal drefol a gwledig gymysg | Ardal o anfantais gymdeithasol neu economaidd | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm masnachu | 34.2 | 39.8 | 23.3 | 31.0 | 31.0 | 28.1 | 29.7 |
| Incwm grant | 24.3 | 26.1 | 35.7 | 34.0 | 26.6 | 39.7 | 25.6 |
| Unrhyw incwm arall | 41.6 | 34.0 | 40.9 | 35.0 | 42.4 | 32.2 | 44.6 |

Ffynhonnell; Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C14, C4, n= 1,216.

## 3.3. Heriau

Mae'r adran hon yn archwilio nifer o heriau a wynebir gan ymatebwyr deiliad grant i'r arolwg.

### 3.3.1. Newid mewn incwm

33% o ddeiliaid grant yn adrodd **dirywiad** yn lefel grantiau sector cyhoeddus

Yn gyntaf, mae'r ffynonellau incwm ar gyfer deiliaid grantiau wedi bod yn newid. Mae Ffigur 3.8 yn dangos y ffynonellau incwm mwyaf cyffredin ar gyfer prosiectau ond hefyd na fod yr incymau hyn yn statig. Yn benodol, nodir lefel gynyddol is o ariannu o grantiau'r sector amgylchedd. Mae hyn yn gyson ag ymchwil ddiweddar arall a gwmpesir gan yr adolygiad llenyddiaeth.

**Ffigur 3.8 Newid mewn incwm o’r prif ffynonellau (dros y pum mlynedd diwethaf)**




Ffynhonnell: Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C12. Noder: Dangosir y chwe ffynhonnell incwm mwyaf cyffredin.

## 3.3.2. Heriau a nodwyd gan ymatebwyr

**Y 3 her mwyaf** oedd diffyg arian grant, cyflwr gwael ar yr ased ynghynt, a sylfaen incwm gul

Gofynnwyd i grantïon am y prif heriau roeddent yn eu hwynebu wrth redeg ased cymunedol. Mae’n galonogol bod llawer o ymatebwyr yn delio’n dda â nifer o’r heriau o redeg prosiect, gyda llawer yn nodi ychydig neu ddim her gyda rhai o’r meini prawf (gweler Ffigur 3.9).

## Ffigur 3.9 Heriau a wynebir gan ymatebwyr




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C17.

Roedd y meysydd her mwyaf arwyddocaol yr adroddwyd arnynt yn cynnwys diffyg ariannu, cyflwr gwael blaenorol yr adeilad, gorddibyniaeth ar grantiau, diffyg cefnogaeth anariannol, neu ymgysylltiad cymunedol gwan. Ymhlith y pethau a nodwyd yn llai heriol oedd materion sgiliau megis gallu'r bwrdd a'r sgiliau neu wybodaeth benodol ar sut i reoli asedau cymunedol.

Gyda'r canlyniadau hyn, dylid hefyd ystyried y gallai ymatebwyr fod wedi bod yn fwy cyfforddus yn adrodd am ffactorau allanol fel her (e.e. diffyg arian ar gael) na ffactorau mewnol a allai adlewyrchu'n wael o bosib ar eu mudiad (yn enwedig mewn arolwg a gomisiynwyd gan eu hariannwr). Yn wir, gwelwyd bod budd-ddeiliaid yn nodi bod y ffactorau mewnol uchod (h.y. gallu'r bwrdd a'r sgiliau neu'r wybodaeth benodol ar sut i reoli asedau cymunedol) yn heriau sy'n bodoli i grwpiau cymunedol (gweler isod).

Mae'r ymatebion i'r arolwg yn canu cloch gyda barn nifer o fudd-ddeiliaid. Roedd y diffyg ariannu ar gael ar gyfer grwpiau cymunedol yn sylw cyffredinol ar y cyfan, gyda llai o arian ar gyfer trosglwyddo/perchnogaeth asedau ei hun (cyfalaf) ac o ganlyniad i'r amgylchedd gweithredu cyllidol tynn (refeniw). Mae awdurdodau lleol yn benodol wedi wynebu heriau o ran ariannu dros y degawd diwethaf.

Mae cyflwr gwael blaenorol llawer o'r adeiladau a gaffaelwyd gan grwpiau cymunedol yn parhau i fod yn her. Fel y dywedodd un budd-ddeiliad "mae hyn yn aml yn gadael grwpiau cymunedol ag ecwiti negyddol cyn iddynt gychwyn, gyda gwerth yr adeilad ar ei newydd wedd neu dan berchnogaeth yn is o lawer na'r symiau a wariwyd ac a fenthycwyd i gyflawni'r gwaith" [Uwch Swyddog mewn Corff Anllywodraethol, M1]. Mae hwn yn fater nad yw'n cael ei gydnabod yn eang, un lle dylai fod mwy o ymwybyddiaeth ymhlith arianwyr, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol.

Mae budd-ddeiliaid hefyd yn nodi bod grwpiau cymunedol yn dibynnu'n ormodol ar arian grant, er bod rhai budd-ddeiliaid (Uwch Swyddog mewn Corff Anllywodraethol/Corff Cyhoeddus Anadrannol M3, F2) yn cydnabod y bu symudiadau cynyddol i weithgareddau masnachu incwm/menter ar draws y sector dros amser. Gall gorddibyniaeth ar incwm grant fod yn broblem benodol i fudiadau mwy, fel y trafodir yn adran 3.3.5.

Ni fydd yr holl wasanaethau/gweithgareddau a ddarperir gan grwpiau cymunedol yn broffidiol. Dywedodd un budd-ddeiliad "dylid derbyn na fydd rhai gwasanaethau/gweithgareddau yn cynhyrchu elw… nid yw rhai o'r gwasanaethau/gweithgareddau hyn erioed wedi dychwelyd elw yn y gorffennol, ac mae'n afrealistig [i grwpiau cymunedol] sydd bellach yn rhedeg y gwasanaethau/gweithgareddau hyn i ddechrau gwneud hynny'n sydyn" [Uwch Swyddog mewn Corff Anllywodraethol, M12].

Yn fwy eang, fodd bynnag, roedd cynhyrchu incwm o set amrywiol o weithgareddau/gwasanaethau yn cael ei ystyried fel anghenraid, yn ddelfrydol trwy amryw ffrydiau incwm a chynnyrch neu wasanaeth cryf a ellir eu defnyddio fel cymhorthdal tuag at weithgareddau eraill: "i ni [menter gymdeithasol lwyddiannus] mae ein dau neu dri chynnyrch a gwasanaeth cryf a phroffidiol yn caniatáu inni gynnal ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau eraill llai proffidiol neu golledus" [Uwch Swyddog mewn Corff Anllywodraethol, M4].

Ychydig o dan 1 o bob 10 grŵp cymunedol yn unig sy’n nodi ymgysylltiad/diddordeb cymunedol gwan fel her (gweler Ffigur 3.9); ond mae budd-ddeiliaid yn gyffredinol yn cydnabod bod ymgysylltiad/diddordeb yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol wrth reoli’r cyfleuster cymunedol: mae prosiectau lle nad yw’r gymuned yn gefnogol yn llai tebygol o lwyddo. Fel y dywedodd un budd-ddeiliad “lle nad yw cyfleusterau neu allbryniadau a redir gan y gymuned wedi gweithio bu diffyg ymgysylltiad gan y gymuned…. ac yn hyn o beth ni allwch fyth wneud digon o ymgynghoriad cymunedol” [Uwch Swyddog mewn Corff Cyhoeddus Anadrannol, F5].

Gan ddychwelyd i’r arolwg deiliaid grantiau, nid yw grwpiau cymunedol fel rheol yn ystyried sgiliau bwrdd, galluedd na’r gallu i gael gafael ar gymorth fel her (4%-6%), er bod cyfran uwch (11%) yn nodi diffyg cefnogaeth anariannol fel her (fel y nodwyd, efallai nad yw’n syndod nad yw ymatebwyr yr arolwg yn sôn am ddiffyg gallu mewnol).

Mae budd-ddeiliaid hefyd yn cydnabod y lefelau da o sgiliau sy’n bodoli ymhlith grwpiau cymunedol (gweler er enghraifft ymchwil Hybiau Cymunedol 2019 - gweler Atodiad A), ac eto mae budd-ddeiliaid yn nodi bylchau gwybodaeth penodol (megis gofynion rheoli iechyd a diogelwch adeiladu), ac y byddai nifer o grwpiau yn elwa o fwy o fynediad at gefnogaeth, yn enwedig sgiliau proffesiynol. Dywedodd un budd-ddeiliad ariannwr “yn aml, ac efallai’n syndod, rydym yn canfod bod byrddau gwirfoddolwyr yn fwy gwrth-risg na mwy o fudiadau masnachol” ac felly gall dod â mwy o sgiliau busnes a ffocws i’r grŵp cymunedol fod yn fuddiol [Uwch Swyddog mewn Corff Anllywodraethol, M8].

Y dystiolaeth o lenyddiaeth ehangach (gweler Atodiad A) yw bod grwpiau cymunedol a all oroesi a’i wneud trwy gamau cynnar, yn fwy tebygol o fynd ymlaen i ddod yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae cefnogi grwpiau cymunedol trwy’r camau cynnar hynny o fudd sylweddol i’r grŵp.

### 3.3.3. Y Tair blynedd nesaf

**Mae 3/4 o brosiectau** yn disgwyl iddo fod yn 'eithaf' i 'hynod' o anodd i redeg eu ased cymunedol dros y 3 mlynedd nesaf

O ystyried yr ystod o heriau a nodwyd gan ddeiliaid grantiau, mae rhyw dri chwarter y prosiectau yn disgwyl iddo fod yn ‘gymedrol’ i ‘hynod’ heriol i redeg eu hased cymunedol dros y tair blynedd nesaf (Ffigur 3.10). Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd o anfantais gymdeithasol neu economaidd ac ardaloedd trefol canolog (gweler Tabl 3.3). O’r gweithgareddau neu wasanaethau cymunedol mwyaf cyffredin, ‘gweithgareddau iechyd neu les’ sy’n sôn am yr her fwyaf i’w hased cymunedol sy’n rhedeg dros y tair blynedd nesaf (Tabl 3.4). Gyda’r olaf, mae ansicrwydd ynghylch ariannu ac analluedd i dalu costau yn rhesymau cyffredin a roddir dros y rhagolygon.

## Ffigur 3.10 Yr Her o redeg ased cymunedol dros y 3 blynedd nesaf




Ffynhonnell: Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C22. n= 993.

## Tabl 3.3 Yr her o redeg ased cymunedol dros y 3 blynedd nesaf yn ôl daearyddiaeth

| Her (%) | Ardal wledig neu bentref bach | Pentref mawr neu dref fach | Ardal drefol ganolog | Ardal faestrefol neu gyrion trefol | Ardal drefol a gwledig gymysg | Ardal o anfantais gymdeithasol neu economaidd | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hynod heriol neu heriol Iawn | 21.6% | 32.6% | 38.2% | 33.3% | 33.3% | 45.9% | 33.3% |
| Ddim yn heriol, ychydig yn heriol neu weddol heriol | 78.4% | 67.4% | 61.8% | 66.7% | 66.7% | 54.1% | 66.7% |

Ffynhonnell; Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C4, C22, n= 1,187.

## Tabl 3.4 Yr Her o Redeg Ased Cymunedol dros y 3 Blynedd Nesaf yn ôl Prif Weithgaredd neu Wasanaeth Cymunedol

| Her (%) | Neuadd gymunedol neu fan cyfarfod | Chwaraeon neu weithgareddau ffitrwydd | Gweithgareddau iechyd neu lesiant | Gweithgareddau addysgol | Arall |
|---|---|---|---|---|---|
| Hynod Heriol neu Heriol Iawn | | 26.0% | 44.4% | 20.7% | 34.0% |
| Ddim yn Heriol, Ychydig yn Heriol neu Weddol Heriol | 76.9% | 74.0% | 55.6% | 79.3% | 66.0% |

Ffynhonnell; Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C10, C22, n= 770. Noder: Dangosir y 5 Gweithgaredd neu Wasanaeth Cymunedol mwyaf cyffredin.

### 3.3.4. Ffynonellau Cefnogaeth

Mae budd-ddeiliaid yn edrych ar yr heriau cynyddol i grwpiau cymunedol wrth recriwtio **aelodau bwrdd gwirfoddol**

Ychydig dros **dreuan** o sefydliadau cymunedol sy'n cael mynediad i gefnogaeth cyfryngau cymdeithasol

Mae **un ym mhob dau** grŵp yn cael mynediad i gefnogaeth codi arian, ond dim ond un ym mhob pump i gynllunio busnes

O ystyried yr heriau sy'n wynebu deiliaid grantiau a'r rhagolygon ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, at ba ffynonellau cymorth y mae deiliaid grantiau'n troi? Rydym wedi gweld sut mae mudiadau'n arallgyfeirio ffynonellau incwm, ond mae mudiadau hefyd yn defnyddio ystod eang o ffynonellau cymorth anariannol i redeg eu prosiect (Ffigur 3.11). Mae grwpiau'n dibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr o'r gymuned leol, mewnbwn a chefnogaeth gan fwrdd y mudiad, defnyddio rhwydweithiau a chyrff aelodaeth eraill, defnyddio cyngor neu gefnogaeth broffesiynol am ddim, a thynnu ar wirfoddolwyr o'r byd busnes. Mae'r holl ffynonellau cymorth anariannol hyn yn gynhwysion hanfodol er mwyn rheoli a chynnal cyfleusterau cymunedol yn effeithiol.

### Ffigur 3.11 Ffynonellau cefnogaeth anariannol (Fesul cant o ymatebion, cwestiwn amlddewis)




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C15. n=1,002.

Fodd bynnag, mae rhai budd-ddeiliaid yn gweld heriau cynyddol i grwpiau cymunedol wrth recriwtio aelodau bwrdd gwirfoddol, yn enwedig dros gyfnod hir. Fel y dywedodd un “Amser (aelod bwrdd gwirfoddol) yw’r rhwystr mwyaf, gydag aelodau bwrdd gwirfoddol yn ffafrio ymrwymiad llai ffurfiol” [Uwch Swyddog mewn Corff Anllywodraethol, M5]. Gan ystyried y daw bron i chwarter y gefnogaeth anariannol ar ffurf aelodau bwrdd gwirfoddol, byddai disgwyl i unrhyw leihad yn y gefnogaeth hon gael effaith negyddol ar grwpiau cymunedol.

Defnyddir ystod eang o ffynonellau cymorth penodol hefyd megis cefnogaeth codi arian, cefnogaeth gyda chyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu, a rheoli eiddo a chyfleusterau proffesiynol (Ffigur 3.12). Yn yr achos olaf, mae rhai mudiadau cymorth (e.e. Locality - rhwydwaith cenedlaethol o sefydliadau a arweinir gan y gymuned) wedi ymateb i’r angen hwn ymhlith grwpiau cymunedol, llawer ohonynt heb sgiliau rheoli eiddo a chyfleusterau - gan gydnabod bod y sgiliau sydd eu hangen i redeg a rheoli cyfleuster yn wahanol i’r rhai yng ngham datblygu/caffael prosiect.

### Ffigur 3.12 Ffynonellau cymorth




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C18. n=994. Dangosir yr wyth mwyaf cyffredin.

Mae budd-ddeiliaid (arianwyr a'r sawl nad ydynt yn arianwyr) hefyd yn nodi gwerth rhwydweithiau a chefnogaeth cyrff aelodaeth i grwpiau cymunedol - yn y bôn y dysgu y gall grwpiau ei gymryd gan eraill sydd wedi bod trwy brofiadau tebyg yn y gorffennol: "Y peth pwysicaf i grwpiau cymunedol [ar gyfer rheoli cyfleusterau cymunedol yn effeithiol] yw mynediad hawdd at gymorth cymheiriaid a rhwydweithiau cymheiriaid.....y rhai sydd wedi bod yn gwneud hyn am 3, 4, 5"[Uwch Swyddog mewn Corff Anllywodraethol, M1]. Mae cynlluniau ysgafn tebyg i fentora sy'n caniatáu i grwpiau cymunedol ddysgu gan eraill yn cael eu gwerthfawrogi lle maent yn bodoli (er weithiau mae hyn o fewn rhwydweithiau aelodau yn unig). Gallai'r gweithgareddau hyn helpu i fynd i'r afael â'r her sy'n wynebu rhai grwpiau wrth gael gafael ar gymorth anariannol.

Nodir mai ychydig dros draean o fudiadau cymunedol yn unig sy'n cyrchu cefnogaeth ar gyfer cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i ddefnyddio sawl llwybr ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a'r newidiadau diwylliannol/technolegol dros y degawdau diwethaf. Nid yw grwpiau cymunedol nad ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ymgysylltu'n llawn â'r gymuned, er ni ddylid dibynnu'n ormodol arno (yn dibynnu ar y grŵp cleientiaid).

Mae llai nag un o bob pump wedi ceisio cefnogaeth ar gyfer Cynllunio Busnes; mae budd-ddeiliaid a'r adolygiad llenyddiaeth yn nodi bod cael Cynllun Busnes cadarn (wedi'i deilwra ac yn berthnasol) yn hanfodol i brosiectau effeithiol (Atodiad A). Gydag un o bob dau grŵp yn cyrchu cefnogaeth ar gyfer codi arian, casgliad posibl yw bod y llwybr hwn (e.e. trwy grantiau, digwyddiadau uniongyrchol ac ati) yn dal i fod yn llwybr a ddefnyddir yn amlach i gynhyrchu incwm na thrwy Gynllun Busnes cadarn (er y gallai'r ddau lwybr fod yn bodoli). Dim ond 4% o grwpiau cymunedol (Ffigur 3.9) sy'n nodi diffyg dealltwriaeth o'r farchnad a/neu ragamcanion llif arian gor-optimistaidd fel her, er bod budd-ddeiliaid yn y sector yn dal i ddarganfod bod hyn yn wir, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n ceisio codi buddsoddiad cymdeithasol. Fel y dywedodd un "yr hyn yr ydym yn edrych amdano [o brosiectau cymunedol ansefydlog posibl] yw rhagdybiaethau cadarn sy'n sail i'r rhagolygon llif arian - dyma'r peth pwysicaf i ni" [Uwch Swyddog mewn Corff Cyhoeddus Anadrannol, M14]. Dywedodd un arall (nad sy'n ariannwr): "lle rydym yn gweld mwy o brosiectau yn methu yw lle mae diffyg cynllun busnes cynaliadwy, a gor-amcangyfrif o ba incwm y bydd y prosiect yn ei gynhyrchu" [Uwch Swyddog mewn Corff Anllywodraethol, M3].

### 3.3.5. Ffactorau lleol a chyd-destunol



**Deiliaid grantiau mewn ardal trefol canolog neu ardal penodol o anfantais cymdeithasol neu economaidd oedd y lleiaf tebygol o ddisgwyl gwarged eleni**



Roedd **mwy** o sefydliadau bach a chanolig yn disgwyl gwneud gwarged eleni na sefydliadau mawr

Fel y nodwyd, mae'r asedau cymunedol a ariennir yn amrywio'n fawr yn ôl ardal budd daearyddol. Canfu'r arolwg o ddeiliaid grantiau mai'r rheini mewn ardal drefol ganolog neu ardal benodol o anfantais gymdeithasol neu economaidd oedd leiaf tebygol o ddisgwyl gwarged eleni (Ffigur 3.13) ac o bosibl yn profi'r pwysau mwyaf ar adnoddau o gymharu â'r rheini mewn lleoliadau eraill. Gall y rhai mewn ardaloedd difreintiedig wynebu mwy o rwystrau na'r rheini mewn meysydd eraill, o ddiffyg gwirfoddolwyr i ddiffyg sgiliau/cefnogaeth broffesiynol pro bono (gweler yr adolygiad o lenyddiaeth, Atodiad A).

## Ffigur 3.13 Lleoliad yn ôl perfformiad ariannol disgwyliedig




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C4, 20. n=1,185.

Atgyfnerthodd budd-ddeiliaid y farn hon, gydag un yn nodi “rydym wedi gweld cymunedau dros amser yn ceisio bod yn fwy entrepreneuraidd wrth redeg canolfannau cymunedol, neuaddau ac ati ac yn cyflogi staff, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig gyda chymorth gwirfoddolwyr ac ymgysylltiad cymunedol cryf, ond ar ochr arall y sbectrwm mae gennym ni gymunedau trefol difreintiedig nad sy’n ymgysylltu â’r farchnad [cymorth ariannu]. Mae hyn naill ai’r awgrymu diffyg gallu neu wybodaeth am sut i ymgysylltu, gyda llawer o gymunedau trefol difreintiedig â lefelau is o gyfalaf cymdeithasol, er y nodwyd sawl eithriad nodedig (e.e. Ymddiriedolaeth Gymunedol Alt Valley yn Lerpwl, Sefydliad Burton Street yn Sheffield).

Roedd disgwyl i gyfran uwch o fudiadau bach a chanolig gael gwarged eleni na mudiadau mawr (Ffigur 3.14). Ymddengys bod mudiadau mawr yn wynebu heriau wrth gael gafael ar arian ar gyfer asedau ac yn profi gorddibyniaeth ar grantiau/neu sail incwm rhy gul (gweler Figure 3.15), er bod yr astudiaethau achos yn benodol yn dyfynnu eithriadau nodedig. Mae mudiadau deiliaid grantiau ‘Canolig’, ‘Mawr’ ac ‘Enfawr’ yn dibynnu’n fwy ar incwm grant na mudiadau deiliaid grantiau ‘Micro’ neu ‘Bach’ (gweler Tabl 3.1 ar dudalen 24). Mae’r canfyddiad hwn yn ymddangos yn wrth-reddfol, ond mae’n gyson ag ymchwil arall, sy’n nodi meintiau elw arbennig o dynn ar gyfer mudiadau mwy (Adolygiad Hwb Cymunedol 2019, gweler Atodiad A).

## Ffigur 3.14 Maint mudiad yn ôl perfformiad ariannol




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C20 a chofnodion Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol n=990.

**Ffigur 3.15 Heriau sy'n effeithio 'llawer iawn neu'n fawr' yn ôl maint mudiad**




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C17 a chofnodion Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol n=492. Dangosir y chwe her fwyaf cyffredin.

I'r mudiadau hynny sy'n disgwyl gwneud colled eleni, yr heriau sy'n effeithio fwyaf arnyn nhw yw: diffyg ariannu, gorddibyniaeth ar grantiau neu sail incwm rhy gul, diffyg cefnogaeth anariannol, a chyflwr gwael blaenorol yr adeilad (Ffigur 3.16). Mae'r adolygiad llenyddiaeth (yn benodol adolygiad Hwb Cymunedol 2019 y cyfeiriwyd ato uchod), a sawl budd-ddeiliad, yn nodi cronfeydd wrth gefn isel/nad sy'n bodoli llawer o grwpiau cymunedol sy'n golygu bod digwyddiadau annisgwyl (e.e. colli cytundeb hirsefydlog, neu bil atgyweirio sydyn) yn gallu arwain at golledion (gan atgyfnerthu unwaith eto yr angen am ffrydiau incwm amrywiol).

**Ffigur 3.16 Heriau sy’n effeithio ‘llawer iawn neu’n fawr’ gan Fudiadau sy’n disgwyl gwneud colled eleni**




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C17 a C20. n=50 Dangosir yr wyth her fwyaf cyffredin.

## 3.4. Gwersi rheoli a chynaladwyedd

### 3.4.1.3.4.1 Gwersi rheoli

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg am y ffactorau pwysicaf ar gyfer cynnal ased cymunedol. Derbyniwyd ystod eang o sylwadau testun agored (ac maent wedi’u categoreiddio yn Ffigur 3.17 a Ffigur 3.18). Roedd nifer o’r sylwadau hyn yn ymwneud yn benodol â materion rheoli (a chafodd llawer o safbwyntiau’r arolwg eu hatgyfnerthu neu eu hategu gan fudd-ddeiliaid).

### Ffigur 3.17 Ffactorau pwysicaf ar gyfer cynnal ased cymunedol




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Dadansoddiad Ansoddol o C24.

### Ffigur 3.18 Cwmwl geiriau'r ffactorau pwysicaf ar gyfer cyflwyno ased cymunedol cynaliadwy




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Dadansoddiad Ansoddol o C23.



**Cynllunio prosiect yn effeithiol.** Mae cynllunio da yn rhan hanfodol o'r broses o gyflwyno prosiectau a nododd budd-ddeiliaid gynlluniau afrealistig fel un o'r prif resymau dros fethu. Wrth lunio'r cynlluniau hyn, pwysleisiwyd pwysigrwydd cyngor proffesiynol cynnar. Mae'r angen cynyddol am gynllunio da yn arbennig o wir mewn sefyllfaoedd pan fo llai o arian grant ar gael.

Yr agweddau ar gynllunio a ystyriwyd yn gynyddol bwysig oedd yr angen i ddadansoddi cystadleuwyr a phrofi straen cynigion. O ran y cyntaf, gwnaeth nifer o fudd-ddeiliad sylwadau hefyd ar dirwedd orlawn y gwasanaeth a ddarperir mewn rhai ardaloedd. Mae gan berchnogion prosiectau a deiliaid cronfeydd rôl bosibl i fapio ac asesu lefel y gweithgaredd mewn ardal i leihau'r tebygolrwydd o hyn (mae hyn yn gynyddol bwysig wrth i nifer yr asedau a drosglwyddir dyfu).

Efallai y bydd angen rhesymoli cyfleusterau cymunedol h.y. un cyfleuster cymunedol llwyddiannus yn hytrach na dau neu dri o rai sy'n ei chael hi'n anodd. Mae cynigion profi straen hefyd yn golygu efallai na fydd yn briodol i grwpiau cymunedol gymryd rhai adeiladau (lle gallai fod rhwymedigaethau sylweddol) a/neu y dylai grwpiau cymunedol ac arianwyr gydnabod y goblygiadau ariannol o wneud hynny.



**Cymysgedd o sgiliau.** Mae deiliaid grantiau yn ei ystyried yn bwysig bod gan fyrddau y gymysgedd gywir o sgiliau (e.e. ymrwymiad, brwdfrydedd, craffter masnachol, gwybodaeth dechnegol, a gwybodaeth gymunedol leol) - gyda diffyg gwybodaeth fasnachol y gwendid mwyaf. Yn yr un modd, ystyrir ei bod yn hanfodol i fyrddau a rheolwyr fanteisio ar gyngor proffesiynol; yn enwedig yng nghyfnodau cynharach dylunio a chyflwyno prosiectau.



**Cynllunio ar gyfer olyniaeth.** Er mai un cynhwysyn allweddol a nodwyd gan ymatebwyr oedd grŵp craidd ymroddedig, ystyriwyd hefyd ei bod yn hanfodol adeiladu y tu hwnt i'r tîm craidd hwn. Roedd recriwtio pobl newydd a/neu iau yn agwedd hanfodol ar gynllunio ar gyfer olyniaeth yn ogystal â ffordd gyflwyno safbwyntiau newydd a sgiliau newydd.




**Arallgyfeirio incwm.** Mae arallgyfeirio incwm yn faes pwysig a nodwyd gan brosiectau o ran gwireddu rheolaeth effeithiol. Ystyriwyd bod yr angen i brosiectau ddatblygu ystod o weithgareddau a ffynonellau incwm, a pheidio â bod yn or-ddibynnol ar nifer fach o ffynonellau incwm, yn enwedig incwm grant, yn allweddol er mwyn cynnal gweithgareddau. Ni ellir gor-ddweud hyn; mae'n lledaenu'r risg ac yn caniatáu datblygu gweithgareddau/ffrydiau incwm ychwanegol.

Yn nodweddiadol nid yw rhai ffrydiau incwm yn cynhyrchu elw uchel (yn enwedig caffis) ond maent yn darparu swyddogaethau ychwanegol defnyddiol (cymdeithasol) ac yn cynhyrchu nifer yr ymwelwyr sy'n cefnogi gweithgareddau eraill. Gall un neu ddwy ffrwd incwm dda (yn benodol yn ymwneud â chynnyrch neu wasanaethau arbenigol) ganiatáu cefnogi prosiectau cymdeithasol mwy ymylol/colledus ond gwerthfawr.



**Perchnogaeth asedau.** Mae perchen ar yr ased yn caniatáu i gymunedau godi arian yn erbyn yr ased (neu os yw'r brydles yn ddigon hir). Er nad yw'n briodol i bob grŵp cymunedol ym mhob sefyllfa, mae perchnogaeth asedau (neu os nad yw hyn yn bosib, prydlesi tymor hir) yn rhoi sicrwydd i grwpiau cymunedol.



**Arian wrth gefn.** Mae diffyg arian wrth gefn ar gyfer gofynion cynnal a chadw parhaus neu annisgwyl hefyd yn cael ei ystyried yn broblem allweddol gan brosiectau (ac mae'r diffyg hwn yn ffactor allweddol wrth beidio â chynnal prosiectau yn llwyddiannus).



**Cefnogaeth yn y camau cynnar.** Mae grwpiau fel arfer yn mynd trwy daith lafurus yn ystod y flwyddyn gyntaf neu ddwy, ac mae rhai nad ydynt yn goroesi. Mae disgwyliadau arianwyr, rhagolygon rhy optimistaidd, beichiau dyled o'r cam caffael/adnewyddu oll yn ffactorau.



**Pwysigrwydd cydgrynhoi.** Fodd bynnag, roedd prosiectau a budd-ddeiliaid eraill yn gweld nad oedd arianwyr yn aml yn edrych yn ffafriol ar grantiau ar gyfer cynnal a chadw arferol a bod pwyslais ar y 'newydd' neu'r 'arloesol'. Er bod arloesedd yn gadarnhaol, ni ddylai hyn fod ar draul cydgrynhoi a chynnal prosiectau llwyddiannus cyfredol, a dylid mynd i'r afael â'r canfyddiad hwn.



**Gwelliannau effeithlonrwydd.** Ystyriwyd bod ffocws ar ddileu ffynonellau gwastraff a buddsoddi yn y tymor hwy yn bwysig (e.e. gwresogi aneffeithlon yn yrrwr cost arbennig o bwysig mewn hen adeiladau). Dylid ystyried costau rhedeg parhaus ar y cychwyn, a allai arwain at adeiladau wedi'u dylunio'n well.

### 3.4.2. Gwersi ar gyfer cynaliadwyedd hir dymor

Gwnaeth ymatebwyr yr arolwg sylwadau hefyd ar yr amgylchiadau ar gyfer cynaliadwyedd hir dymor (gweler Ffigur 3.17 a Ffigur 3.18 or dudalen 38). Atgyfnerthwyd neu ategwyd llawer o safbwyntiau gan fudd-ddeiliaid. Ymysg y canfyddiadau oedd y materion canlynol.



**Cefnogaeth gymunedol.** Y maes a nodwyd amlaf gan brosiectau yn ymwneud â phwnc cefnogaeth gymunedol, gyda materion megis cynnwys ymgysylltu â'r gymuned yn effeithiol yn eu plith. Roedd ymrwymiad pobl leol yn aml yn cael ei ystyried yn allweddol, gyda pherchnogaeth leol yn gwneud gwahaniaeth mawr i gynaliadwyedd prosiectau. Yn ogystal, roedd bod â gwybodaeth am y gymuned leol yn hanfodol er mwyn eu gwasanaethu'n ddigonol ac i addasu i anghenion newidiol. Mae modelau aelodaeth yn llwyddiannus, yn enwedig cyfleusterau chwaraeon, gyda nifer ohonynt yn cael eu rheoli'n effeithiol trwy gynnwys y gymuned sydd â diddordeb.

Fodd bynnag, er bod llogi lleol hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig, gallai hyn hefyd ddod â heriau o ran angen graddfeydd amser estynedig ar adegau a buddsoddiad i'r rheini o gefndir mwy difreintiedig.

**Datblygu gwirfoddolwyr.** Roedd cynnal sylfaen gref o wirfoddolwyr yn ffactor hanfodol a nodwyd gan lawer o ymatebwyr yr arolwg, ond yn aml yn her, ac yn faes a elwodd o gyfathrebu da, gan fynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion a phryderon yr ardal ac addasu i anghenion newidiol.

**Brwdfrydedd.** Yn aml yn cael ei gymryd yn ganiataol, elfen anniriaethol hanfodol a nodwyd gan lawer o ymatebwyr yr arolwg ac a atgyfnerthwyd gan fudd-ddeiliaid oedd yr angen am frwdfrydedd, angerdd ac ymrwymiad gan berchnogion prosiectau - grŵp craidd o leiaf - er mwyn cynnal a gyrru cynnydd prosiectau.

**Gwaith partneriaeth.** Ni nodwyd rôl partneriaethau a rhwydweithio gan lawer o ymatebwyr yr arolwg, ond gwnaeth sawl budd-ddeiliad sylwadau ar bwysigrwydd rhwydweithiau da fel mecanwaith effeithiol iawn ar gyfer dysgu. Yn ogystal, roedd gweithio gyda phartneriaid lleol yn ystyriaeth allweddol i sicrhau perthnasedd y prosiect i anghenion lleol, ac i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf posibl gan bartneriaid lleol eraill gan gynnwys prosiectau eraill yn ogystal ag awdurdodau lleol. Mae'n bosib bod y pwyslais isel ar y mater hwn gan ymatebwyr yr arolwg (heblaw pan ofynnwyd iddynt - gweler Ffigur 3.11 ar dudalen 31) yn adlewyrchu tueddiad 'meddwl seilo' rhai mudiadau.

## 3.5. Buddion Cymunedol

Ar ôl edrych ar ddulliau cyfredol o redeg asedau cymunedol, heriau a wynebir gan ddeiliaid grantiau, a gwersi rheoli, trown yn olaf at archwilio nifer o'r buddion cymunedol a nodir gan ddeiliaid grantiau. Mae gan brosiectau a ddarperir gan fudiadau a gefnogir ystod eang o fuddion arfaethedig y tu hwnt i'r budd uniongyrchol o redeg cyfleuster go iawn. Y rhai mwyaf cyffredin yw gwella lles cymdeithasol, helpu i adeiladu hunaniaeth a chydlyniant cymunedol, gwella iechyd, a gwella addysg a sgiliau (Ffigur 3.19). Mae'r buddion hyn yn cael eu targedu amlaf at ystod eang o bobl o bob rhan o gymuned leol (Ffigur 3.20). Mae hefyd yn wir na all yr holl weithgareddau a wneir i gyflawni'r buddion hyn fod yn cynhyrchu incwm - gan adlewyrchu'r anawsterau sy'n wynebu cymunedau wrth reoli eu cyfleusterau cymunedol a darparu effeithiau cymdeithasol.

## Ffigur 3.19 Prif amcanion asedau cymunedol




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C5. n=1,120

## Ffigur 3.20 Defnyddwyr asedau cymunedol




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C7. n=1,105

Dangosir y gweithgareddau hynny y nodir sydd fwyaf heriol o ran cyrraedd targedau yn Ffigur 3.21. Dim ond un o'r meysydd pwnc mwyaf cyffredin sy'n ymddangos (h.y. 'Help i adeiladu hunaniaeth a chydlyniant cymunedol'), a noda naw o bob 10 ymatebwr bod prosiectau ar y trywydd cywir i gyrraedd y targed neu uchafu arno - canfyddiad cadarnhaol ar y cyfan.

## Ffigur 3.21 Bodloni'r prif amcanion (y mwyaf heriol)




Ffynhonnell Arolwg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol C21.

Fodd bynnag, y meysydd yr eir i'r afael â hwy yn llai cyffredin yr adroddir eu bod yn fwy heriol o ran cyrraedd targedau yw: 'cynyddu rheolaeth gymunedol cartrefi/cymdogaethau', 'lliniaru tlodi' a 'chynyddu cyflogaeth' - pob un o arwyddocâd sylweddol i feysydd sydd o dan anfantais gymdeithasol neu economaidd. Bu un budd-ddeiliad tynnu sylw yn benodol at yr her o gyflwyno prosiectau tai cymdeithasol a arweinir gan y gymuned "mae'r rhain yn anodd o ran y broses - caffael tir, cytundebau, pwy sy'n elwa ac ati - ac wrth godi'r arian - mae cynhyrchu elw o brosiectau tai cymdeithasol yn arbennig o heriol" [Uwch Swyddog mewn Corff Anllywodraethol, M8].

# 4. Astudiaethau achos

## 4.1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn nodi sawl astudiaeth achos sy'n tynnu sylw ymhellach at wersi ar gyfer rheoli a chynnal cyfleusterau cymunedol yn effeithiol.

## 4.2. Ogofâu Margate, Ardal Thanet, Caint

Wedi'u cloddio'n wreiddiol fel mwynglawdd sialc yn y 18fed ganrif, mae'r Ogofâu wedi bod yn croesawu ymwelwyr er 1863 ond cawsant eu cau yn 2004. Er 2011, derbyniodd ymgyrchwyr a oedd yn benderfynol o achub yr Ogofâu arian mawr gan Gronfa'r Loteri Fawr a Chronfa Dreftadaeth y Loteri, gyda chefnogaeth ymgyrch codi arian lleol gan gynnwys Arwerthiant Cerdyn Post Cyfrinachol ac ymgyrch Crowdfunder.

Fe alluogodd yr arian a godwyd i Ymddiriedolaeth Addysg Gymunedol Ogofâu Margate (TMCCET) a Chyfeillion Ogofâu Margate i gontractio peirianwyr geodechnegol i warchod yr Ogofâu a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl feini prawf Iechyd a Diogelwch modern, tra bod cadwraethwr arbenigol wedi adfywio murluniau bywiog y safle, gan ddadwneud blynyddoedd o ddifrod.

Ochr yn ochr â'r gwaith adeiladu ac yn yr Ogofâu, roedd yr arian hefyd yn cefnogi rhaglen aml-weithgaredd sy'n mynd â'r Ogofâu i'r gymuned leol, datblygu cynllun dysgu ar gyfer ysgolion a sefydlu canolbwynt hyfforddi i wirfoddolwyr yn yr Ogofâu.

Yn ganolog i'r gweithgaredd hwn mae canolfan Ogofâu Margate newydd (a agorwyd ym mis Gorffennaf 2019 ar ôl 4 blynedd o ddatblygiad). Mae tu allan dramatig yr adeilad yn darparu tirnod lleol newydd yn ogystal â mynediad i'r Ogofâu sydd wedi'u hadfer ac mae'n cynnwys siop a chaffi cymunedol. Yn fwy cyffredinol, mae'n darparu gofod cymunedol hyfyw yn ariannol y mae mawr ei angen (nid oes llawer o amwynderau lleol) mewn ardal sydd ag agweddau ar anfantais gymdeithasol ac economaidd. Yn wir, mae'r prosiect yn rhan annatod o adfywiad ehangach yr ardal gyfagos.

Yng nghefn y ganolfan ymwelwyr mae ystafelloedd cymunedol, mannau hyblyg sy'n darparu naill ai un ystafell fawr neu ddwy ystafell ddosbarth lai, y gellir eu defnyddio ar gyfer ystod o weithgareddau ac sydd ar gael fel canolfan i ysgolion sy'n ymweld â Margate neu i grwpiau lleol gwrdd. Mae'r ganolfan yn cynnal nifer o ddigwyddiadau ar gyfer grwpiau o bob oed: cyfarfodydd sgowtiaid, cyfarfodydd adferiad yn sgil caethiwed dan arweiniad yr eglwys, dosbarthiadau rhwymo llyfrau a dosbarthiadau symudiad i blant bach.

Yn ôl perchnogion y prosiect roedd y broses ddatblygu hyd yn hyn yn heriol oherwydd y dull cymhleth, aml-weithgaredd, gyda gwaith hynod dechnegol yn ymwneud â'r ogofâu a datblygu'r ganolfan. Fodd bynnag, cafwyd cefnogaeth pro bono sylweddol hefyd i'r dyluniad a'r adeiladwaith gan beirianwyr lleol a gweithwyr proffesiynol pensaernïol. Yn ogystal, ceisiwyd cymorth mewn meysydd allweddol, yn eu plith: cyngor treth, cyfryngau cymdeithasol a chymorth cyfathrebu, a rheoli eiddo/cyfleusterau. Wrth edrych yn ôl byddai'r prosiect wedi bod yn llai gobeithiol o ran amseru - gyda'r gwaith yn cymryd o bosib 10% yn hirach ac yn costio 10% yn fwy na'r disgwyl. Roedd y gwersi eraill a ddysgwyd yn cynnwys pwysigrwydd rhoi gwybodaeth i fudd-ddeiliaid - er y gwnaed hyn - byddai'r prosiect wedi elwa o wneud hyn yn amlach.

Gyda grant gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn dod i ben ym mis Mawrth 2019, a gyda grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn dod i ben ym mis Medi 2020, nododd cynrychiolydd y prosiect rai o'r ffactorau allweddol yn llwyddiant y prosiect fel "Gwahanol ffrydiau incwm, cyfranogiad lleol da a rheolaeth ariannol gadarn". Hefyd, roedd tîm rheoli prosiect cryf a phrofiadol yn gweithio'n agos gyda'r Cadeirydd a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael ei ystyried yn ffactor yn y llwyddiant.

Mae'r prosiect wedi mwynhau cydnabyddiaeth (Enillodd canolfan Ogofâu Margate le ar restr fer Gwobrau MacEwen fel menter a arweinir gan y gymuned i ailagor yr atyniad hanesyddol i'r cyhoedd ac ennyn diddordeb y bobl leol gyda'i gofod cymunedol newydd a'i raglen o weithdai, digwyddiadau a gwirfoddoli. Dywedodd un o'r Beirnaid, Hana Loftus: "Mae wedi deillio o'r gymuned, yn hytrach na chael ei orfodi arni") a niferoedd a defnydd cadarnhaol ymwelwyr hyd yma. Serch hynny, wrth edrych i'r dyfodol mae'r prosiect yn gweld y tair blynedd nesaf yn gymharol heriol: "Mae'r amgylchedd economaidd yn ansicr i'r diwydiant twristiaeth treftadaeth sy'n gwarantu'r arian ar gyfer y ganolfan gymunedol".

## 4.3. Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Netherholm, Castlemilk, Glasgow

Datblygwyd Canolfan Ieuenctid a Chymunedol Netherholm yn Castlemilk ar ôl ymgyrch dan arweiniad Cymdeithas Tai Thenue, sydd â chartrefi yn yr ardal, mewn partneriaeth â grŵp preswylwyr Cymdeithas Ardal Netherholm (mae'r gymdeithas ardal wedi'i chysylltu â Thenue ac yn derbyn ariannu a chymorth gan y darparwr tai er mwyn gallu cynrychioli barn pobl leol). Cefnogwyd y prosiect gan Big Lottery Scotland sy'n darparu £995,000 o'i Gronfa Growing Community Assets ac a agorwyd yn 2018.

Mae Canolfan Netherholm yn gartref i sawl prosiect. Er enghraifft, mae Urban Fox, darparwr gwasanaethau ieuenctid hynod brofiadol, yn cyflwyno Prosiect Ieuenctid Netherholm i bobl ifanc 12 i 18 oed ar ran Thenue. Mae hyn yn cynnwys beicio mynydd, pêl-droed a chwaraeon tîm eraill a darparu cyngor a gwybodaeth ar faterion mor amrywiol â bwyta'n iach a rhoi'r gorau i ysmygu.

Nododd Cymdeithas Ardal Netherholm ac Thenue y datblygiad fel "newid enfawr" ar gyfer Castlemilk a fyddai'n helpu teuluoedd ledled y gymuned, mewn ardal lle nad oedd mynediad hawdd at gyfleusterau cymunedol. Mae'r prosiect yn nodi ymgysylltiad a chydlyniant cymunedol cynyddol ar ben y rhaglenni penodol a gyflwynir. Mae'r ganolfan newydd yn gweithredu fel canolbwynt cymdeithasol ac economaidd i Netherholm sy'n darparu ystod o wasanaethau a gyda'r flaenoriaeth allweddol o ddiwallu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc. Fe'i cynlluniwyd fel adeilad hyblyg, amlbwrpas gyda neuadd fawr, ystafelloedd cyfarfod ac ystafell TG.

O'r herwydd, mae'r ganolfan wedi arallgyfeirio incwm o logi ystafell gyfarfod/neuadd, a rhentu swyddfa/gweithle, yn ogystal ag arian grant. Serch hynny, mae'r prosiect hefyd yn derbyn amryw ffynonellau o gymorth anariannol gan gynnwys gwirfoddolwyr o'r gymuned leol, a chyngor a chefnogaeth broffesiynol pro bono.

Mae Cymdeithas Tai Thenue yn berchen ar ac yn rheoli tua 3,500 o eiddo o amgylch Glasgow, cymdogaethau ym mhen dwyreiniol y ddinas yn bennaf. Rôl y Gymdeithas yw cyfrannu at ymdrechion i adfywio'r cymunedau lle mae ganddyn nhw dai, rhai o'r

ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Glasgow. Mae'r ymdrechion hyn yn mynd y tu hwnt i'r cyfrifoldeb craidd o greu tai gweddus ac yn cynnwys prosiectau i fynd i'r afael â diweithdra, afiechyd, materion budd-daliadau lles ac eithrio digidol.

Gwneir y gwaith hwn gan dîm Cymunedol Thenue a thrwy mudiadau partner, y nod cyffredinol yw helpu pobl sy'n byw yn ein cymunedau i wella eu bywydau. Fodd bynnag, ymagwedd y mudiad yw gweithio gyda chyfraniad gweithredol y bobl sy'n byw yn y cymunedau. Maent yn gweithio'n agos gyda thrigolion i nodi blaenoriaethau lleol ac i ddatblygu ffyrdd o fynd i'r afael â'r rhain, ac mae ganddynt gytundebau ffurfiol â Chymdeithasau Ardal mewn sawl maes gan gynnwys Netherholm. Cefnogir aelodau'r gymuned leol hefyd i chwarae rhan weithredol wrth reoli a rhedeg y ganolfan, fel deiliaid allweddi, gan hefyd leihau'r gorbenion staffio sy'n ofynnol i weithredu'r ganolfan.

Nodwyd "cynllunio ymlaen llaw, cynhyrchu eich incwm eich hun a llwyddo i gydbwyso anghenion ariannol a chymunedol" fel ffactorau allweddol wrth gyflwyno ased cymunedol cynaliadwy. Dywedodd y prosiect, "Rydym mewn sefyllfa gref yn ariannol oherwydd ein bod yn adolygu ein cynllun busnes yn flynyddol ac yn ceisio asesu'r risgiau sydd o'n blaenau a ffyrdd i'w hosgoi neu weithio drwyddynt". Mae gan y prosiect blaengynllun 5 mlynedd, a adolygir yn flynyddol, ac yn gysylltiedig â hyn, maen nhw wedi sefydlu cronfeydd wrth gefn sylweddol i sicrhau sefydlogrwydd a pharhad y ddarpariaeth yn wyneb amgylchedd ariannu a all fod yn ansicr ar adegau.

## 4.4. Access Employment Ltd., Larne

Sefydlwyd Access Employment Limited (AEL) ym 1999 fel y cwmni cymdeithasol cyntaf yng Ngogledd Iwerddon. Eu cenhadaeth yw "gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu canolfan ragoriaeth sy'n cynnig cyfleoedd i unigolion difreintiedig", sydd ar hyn o bryd yn darparu mwy na 100 o leoedd hyfforddiant yr wythnos i unigolion sydd ag anabledd/anhawster dysgu, Asperger, awtistiaeth neu anfanteision eraill. Mae unigolion yn ennill sgiliau seiliedig ar waith, yn gwella eu sgiliau rhyngbersonol, ac yn datblygu hunanhyder a hunan-barch, gan weithio fel rhan o dîm a chwblhau tasgau fel rhan o weithlu gallu cymysg.

Yr hyn sy'n gwahaniaethu AEL yw'r pwyslais cryf ar fodel busnes cynaliadwy. Mae wedi datblygu nifer o ffrydiau incwm. Un o'r ffrydiau sy'n llwyddiannus o ran creu incwm mwyaf yw Clearer Water, dŵr potel y gall defnyddwyr ei adnabod fel cyflenwad moesegol, sy'n helpu i gynnal gweithgareddau eraill sy'n gwneud llai o elw, gan gynnwys caffi'r bocs bwyd a rhandiroedd a'r ardd farchnad. Mae AEL hefyd wedi datblygu busnes archebu cyflenwadau crefft a phapur busnes ar-lein hynod lwyddiannus a busnes pecynnu a chydosod, gan ddarparu cyflogaeth i unigolion difreintiedig ar bob adeg.

Mae model busnes AEL wedi'i seilio ar yr egwyddor o ddarparu boddhad mawr i gwsmeriaid (mae gan y busnesau cyflenwadau parti ar-lein lefel boddhad 100% ar Amazon ac eBay) a chwsmeriaid mynych, gyda ffocws ar farchnadoedd y tu allan i Ogledd Iwerddon. Ei werthoedd craidd yw uniondeb, rhagoriaeth, proffesiynol a chydraddoldeb. Mae'r busnes wedi cryfhau ei ymgysylltiad â'r gymuned yn ymwybodol er 2010 er mwyn cyflawni ei genhadaeth. Yn hanfodol i hyn oedd symud i leoliad mwy canolog yn Larne (yn hytrach nag uned ddiwydiannol yng nghyrion y dref), fel bod AEL yn fwy hygyrch. Ceision nhw hefyd symud oddi wrth is-gontractio ar yr un pryd, er mwyn cynhyrchu ei incwm ei hun.

Roedd symud i'r lleoliad canolog yn cynnwys defnyddio adeilad Coleg Rhanbarthol y Gogledd (NRC), a oedd yn cael ei dan-ddefnyddio yn fawr. Ymgysylltodd AEL â NRC i weld sut y gellid defnyddio'r adeilad yn well. Datblygwyd trefniant partneriaeth traws-sector, gan gynnwys AEL, NRC a'r Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd leol. Cadwodd NCR ran o'r adeilad ar gyfer eu dosbarthiadau nos, ond cyn pen dim roedd y llawr gwaelod yn llawn mentrau cymdeithasol. Roedd cydleoli'r Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd yn golygu bod yr adeilad yn cyflawni amcanion cymdeithasol, addysg a chyflogaeth, ymagwedd gydgysylltiedig gadarnhaol.

O 2012, mae sawl rhaglen hyfforddi newydd wedi cael eu darparu, ochr yn ochr â'r nifer cynyddol o weithgareddau menter gymdeithasol (y dŵr potel, y busnes pecynnu ac ati y soniwyd amdanynt uchod). Bu AEL gyflwyno Hyfforddiant Ymarferol a Rhaglen Newidiadau'r Gronfa. Fodd bynnag, mae'r incwm grant i ddarparu'r hyfforddiant hwn, er ei fod yn bwysig i'r busnes, yn cyfri am 30% yn unig o gyfanswm yr incwm.

Mae AEL yn parhau i fynd o nerth i nerth. Yn 2018, comisiynodd AEL Brifysgol Queen's Belfast i gynnal asesiad effaith. Cynyddodd y trosiant rhwng 2012 a 2017 o £0.3m i £1.1m (ac i £1.5m 2019), gan symud o sefyllfa o wneud colled i wneud elw net o dros £100,000 y flwyddyn. Oherwydd bod 70% yn incwm masnachu, gall AEL fuddsoddi ei warged mewn ffyrdd sydd o fudd i'r busnes. Canfu ymchwil Queen's University, am bob £1 y mae AEL yn ei wario, bod 80c yn cael ei ail-wario yn ardaloedd Canol a Dwyrain Antrim, sy'n fudd eilaidd sylweddol, gyda 42c yn cael ei ail-wario yn economi gymdeithasol Gogledd Iwerddon.

Mae ffactorau llwyddiant AEL a nodwyd yn yr adroddiad asesu effaith yn adlewyrchu'r gwerthoedd craidd a roddwyd ar waith gan AEL: arweinyddiaeth gref; systemau cadarn; arloesedd; galluedd economaidd cryf; perthnasedd; moeseg a chymysgedd o sgiliau; a gweithio mewn partneriaeth. Mae'r ffrydiau incwm amrywiol yn caniatáu buddsoddiad parhaus mewn - a chynaliadwyedd - swyddogaethau cymunedol pwysig, gan gynnwys y caffi ar y safle, yr hyfforddiant a'r rhandiroedd. Mae'n weithrediad hynod drefnus, proffesiynol iawn, sydd wedi mwy na threblu nifer ei weithwyr o 13 i 50, gan gynnig cyfleoedd cyflogaeth o safon i'r rheini a fyddai fel arall dan anfantais fawr yn y farchnad lafur[5].

## 4.5. Galeri Caernarfon CYF

Mae Galeri Caernarfon Cyf yn fenter gymunedol ddielw sy'n gweithredu fel Ymddiriedolaeth Ddatblygu, a sefydlwyd ym 1992 (a elwid ar y pryd yn Cwmni Tref Caernarfon Cyf). Ar adeg sefydlu'r fenter gymunedol, roedd canol y dref mewn cyflwr gwael, gyda lefelau uchel o adfeiliedigrwydd yn ardal gaerog y dref.

Dros amser, mae'r fenter gymunedol fesul tipyn wedi caffael ac adnewyddu nifer o adeiladau yn y dref gaerog. Roedd y rhain yn cynnwys siopau, swyddfeydd a thai yn y dref gaerog. Gweledigaeth y fenter yw bod "unrhyw beth yn bosibl… trwy feddwl yn greadigol a gweithredu'n gynaliadwy" ac y bydd y cwmni'n "gweithredu prosiectau cynaliadwy mewn ffordd greadigol i wireddu potensial diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned leol a'i chyffiniau".

5 AEL – A Model for Social Enterprise? Queen's University Belfast ac AEL, 2018

Hyd yn hyn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnewyddu ac ailddatblygu 20 adeilad a oedd gynt yn wag ac wedi dirywio yng Nghaernarfon. Yn 2010, cyflogodd y cwmni dros 50 aelod o staff amser llawn, rhan amser a thymhorol, gan gefnogi 50 swydd ychwanegol arall yn yr economi leol. Dywedodd astudiaeth effaith economaidd annibynnol ar y pryd fod y cwmni wedi cyfrannu bron i £2.5m i economi Gwynedd ac Ynys Môn, ac am bob £1 a wariwyd yn Galeri, mae'n werth £2 i'r economi leol ac mae pob £1 o arian grant yn cynhyrchu £9.65 yn yr economi leol.

Mae'r cwmni wedi mynd o nerth i nerth. Yn 2005, agorodd ganolfan menter diwylliant gwerth £7.5m, yn cynnig ystod o swyddogaethau, gan gynnwys lleoedd gwaith ar gyfer busnesau celfyddydol a diwylliannol, man ymarfer, ystafelloedd cyfarfod, cyfleusterau cynadledda, theatr/sinema a chaffi ar y safle. Mae unedau ar gael o 17m2 a gwasanaethau i fusnesau gan gynnwys derbynfa, diogelwch, derbyn ac anfon post, glanhau a chyfleustodau. Erbyn hyn mae'r cwmni'n berchen ar ryw 18 o siopau/adeiladau masnachol a thai ar bum stryd. Yn 2018, ychwanegodd 2 sgrin sinema, 190 sedd arall.

Mae Galeri yn enghraifft o weledigaeth gymunedol hirdymor, sy'n dangos yr hyn y gellir ei gyflawni. Dechreuodd y cwmni'n fach, ond mae wedi ehangu i gynnwys adran rhaglennu celfyddydau, rheoli cyfleusterau, tîm gwasanaeth cwsmeriaid, tîm cegin, marchnata a hyrwyddo, AD a chyllid. Bwrdd gwirfoddolwyr a arweinir gan y gymuned yw'r bwrdd, gydag arsylwyr o Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Gwynedd a Chyngor Tref Caernarfon. Galeri oedd Menter Gymdeithasol y Flwyddyn Cymru a'r DU ar gyfer 2019.

Mae Galeri, o'i ddyddiau cynharaf, wedi ceisio bod yn hunangynhaliol. Ni dderbyniodd y cwmni unrhyw arian refeniw rhwng 1996 a 2005 (Adroddiad Arad); felly rhoddodd y Ganolfan Menter Greadigol yn 2005 gyfle i gynhyrchu incwm (i'r graddau y cynyddodd y trosiant i £1.2m yn 2007/2008)[6].

## 4.6. Gwersi

Mae'r astudiaethau achos a archwiliwyd yn atgyfnerthu sawl gwers a nodwyd eisoes mewn man arall, gan gynnwys:

- Ymgysylltiad cymunedol cryf sy'n cynnwys pobl leol yn weithredol wrth asesu anghenion, rheoli a darparu asedau cymunedol a'r gwasanaethau cysylltiedig;
- Arweinyddiaeth gyson a chryf a all fanteisio ar arbenigedd lleol a chefnogaeth arbenigol yn ôl yr angen;
- Cael gafael ar gyngor proffesiynol yn gynnar yn y broses gynllunio/datblygu;
- Arallgyfeirio ffrydiau incwm i ddarparu sefydlogrwydd incwm a llai o ddibyniaeth ar incwm grant;
- Ymagwedd drylwyr at gynllunio busnes sy'n ystyried yr angen am arian wrth gefn ac anghenion cynnal a chadw parhaus;
- Yn aml, dilyn prosiect fel rhan o fenter adfywio neu ddatblygu integredig ehangach, gan fanteisio i'r eithaf ar gysylltiadau â mentrau cyfagos.

6 2010 Adroddiad Arad https://www.galericaernarfon.com/eng/downloads/adroddiad-arad.pdf

# 5. Casgliadau ac argymhellion

Gan dynnu ar y canfyddiadau a gyflwynwyd, mae'r adran hon yn cyflwyno sawl casgliad cyffredinol ynghyd â rhestr o argymhellion penodol i'w hystyried.

## 5.1. Casgliadau

Mae fframwaith 'Thriving Communities' y Gronfa yn cysyniadu'r gwahaniaeth y maent yn ceisio ei wneud trwy arian y Loteri Genedlaethol. Mae'r fframwaith yn arbennig o berthnasol i'r ymchwil hon oherwydd ei fod yn tynnu sylw at rôl lleoedd a gofodau, gan gynnwys cyfleusterau cymunedol, wrth alluogi cymunedau i ffynnu. Mae ein hymchwil yn tynnu sylw at y rôl bwysig ac amrywiol mae prosiectau a gefnogir yn eu gwneud ledled y DU wrth alluogi cymunedau i fynd i'r afael ag ystod o amcanion cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, yn aml mewn ardaloedd difreintiedig.

Er bod gwaith blaenorol o fewn y Gronfa wedi datblygu tystiolaeth am drosglwyddo asedau cymunedol fel ffocws proses a pholisi, ni wyddys cymaint am yr hyn sydd ei angen i reoli a chynnal ased cymunedol effeithiol. Mae'r ymchwil a gomisiynwyd yn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch hwn, gan dynnu sylw at nifer o heriau penodol a wynebir gan brosiectau. Bydd hyn yn helpu prosiectau ac arianwyr i ddatblygu strategaethau ymhellach i ymateb i'r heriau hyn.

Cynhelir yr ymchwil yn erbyn cefndir o bwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus, lleihau adnoddau, newid demograffeg ac ystod o ansicrwydd sy'n deillio o faterion megis Brexit a Diwygio Lles. Yn y cyd-destun hwn, ni fu pwysigrwydd adeiladu cyfoeth cymunedol, twf cynhwysol a rheoli'r galw am wasanaethau cyhoeddus mewn modd cynaliadwy erioed yn bwysicach.

Mae'r ymchwil yn dangos bod gan brosiectau a gefnogir gyfrifoldebau eang wrth ddarparu gwasanaethau o'r asedau y maent yn eu rheoli. Ni all neu ni ddylai'r holl wasanaethau hyn gynhyrchu refeniw, a bydd gallu deiliaid grantiau i gynnal darpariaeth, neu yn wir ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau, yn parhau i fod yn heriol, ond mae gwersi ymarferol hefyd am yr hyn sy'n gweithio wrth reoli a chynnal ased cymunedol effeithiol.

Mae grwpiau cymunedol yn parhau i lwyddo i reoli cyfleusterau cymunedol, er gwaethaf heriau parhaus, yn anad dim cyfyngiadau cyllidol i'r sector cyhoeddus a'r angen i gynhyrchu ffrydiau incwm amgen. Dangosir bod arallgyfeirio ffrydiau incwm yn darparu sefydlogrwydd incwm ac mae'n bwysig er mwyn cael llai o ddibyniaeth ar incwm grant.

Er gwaethaf heriau elw isel a chyfaddawdau rhwng cynhyrchu incwm a chenadaethau cymunedol, mae'r ymchwil yn cefnogi'r farn bod grwpiau serch hynny yn goroesi ac yn sicrhau bod ystod eang o gyfleusterau cymunedol ar gael i'w cymunedau.

Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod y siwrnai ar gyfer grwpiau cymunedol ymhell o fod yn hawdd, a bod angen llawer o gefnogaeth. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod angen arweinyddiaeth gyson a chryf a all fanteisio ar arbenigedd lleol a chefnogaeth arbenigol yn ôl yr angen. Mae mynediad at gyngor proffesiynol o gyfnod cynnar o'r broses gynllunio/datblygu hefyd yn bwysig. Mae angen gallu i ymdrin â chynllunio busnes yn drwyadl hefyd, sy'n caniatáu ystyried yr angen am arian wrth gefn ac anghenion cynnal a chadw parhaus.

Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod grwpiau mwy llwyddiannus yn hŷn - ac yn llwyddiannus oherwydd eu hirhoedledd. Mae'r ymchwil hon hefyd yn dangos bod y mudiadau hynny sy'n cael eu herio fwyaf yn cynnwys y rhai mewn ardaloedd trefol, ac ardaloedd o fantais gymdeithasol/economaidd. Mae'r ymchwil hefyd yn tynnu sylw at broblemau llawer o gyrff mwy wrth drosglwyddo i amgylchedd ariannu gyda llai o ddibyniaeth ar arian grant. Mewn rhai achosion, mae prosiectau llwyddiannus yn mynd ar drywydd prosiect fel rhan o fenter adfywio neu ddatblygu integredig ehangach, gan fanteisio i'r eithaf ar gysylltiadau â mentrau cyfagos.

Ar hyd y ffordd, mae rhai grwpiau a chyfleusterau yn cwympo wrth ymyl y ffordd, ac mae rhai grwpiau yn cael eu hannog i beidio â rheoli cyfleusterau. Gall ei gwneud hi'n haws i grwpiau reoli cyfleusterau - yn enwedig mudiadau newydd - helpu i adeiladu'r cyfoeth cymunedol y byddai cymaint o gymunedau yn elwa ohono. Mae'r ymchwil yn awgrymu mai agwedd bwysig ar lwyddiant yw ymgysylltu â'r gymuned yn gryf sy'n cynnwys pobl leol yn weithredol wrth asesu anghenion, rheoli a darparu asedau cymunedol a'r gwasanaethau cysylltiedig.

## 5.2. Argymhellion

Gwneir yr argymhellion canlynol:

1. **Dadansoddiad o gystadleuwyr:** Dylai arianwyr ofyn am ddadansoddiad realistig o gystadleuwyr fel rhan o geisiadau prosiect, a dylai arianwyr ddarparu arweiniad i brosiectau ar y camau allweddol gofynnol. Perchennog: Arianwyr.
2. **Mapio gweithgareddau a gwasanaethau:** Byddai cynnal cyfeirlyfrau lleol o asedau cymunedol a'r gwasanaethau a ddarperir yn cynorthwyo gyda dadansoddi cystadleuwyr. Bydd mapio asedau'n barhaus (asedau a drosglwyddir, nid y rhai sydd ar gael i'w trosglwyddo yn unig) hefyd yn cynorthwyo awdurdodau i flaenoriaethu math a lleoliad asedau i'w trosglwyddo yn y dyfodol. Perchennog: Awdurdodau lleol ac Arianwyr.
3. **Sicrhau bod meini prawf ariannu ar gyfer parhad prosiectau da yn cael eu cyfleu i ddeiliaid grant:** Dylid adolygu cyfathrebiadau ynghylch meini prawf ariannu ar gyfer cefnogaeth, er mwyn dileu unrhyw gamsyniad gan ddeiliaid grant bod angen gweithgaredd 'newydd' er mwyn bod yn gymwys. Perchennog: Arianwyr.
4. **Arian wrth gefn a chynnal a chadw:** Dylai arianwyr annog prosiectau i gynnal a diweddaru cynlluniau cyllideb sy'n ystyried gofynion wrth gefn, fel rhan o'r gofynion ariannu. Dylai prosiectau gymryd camau i gyllidebu'n realistig a chadw cronfeydd wrth gefn priodol. Gallai hyn hefyd gynnwys cyllidebau realistig ar gyfer blynyddoedd cynnar yn benodol (hyd at 18 mis) tra bod grwpiau'n sefydlu eu hunain. Perchennog: Arianwyr a Phrosiectau.
5. **Cynllunio ar gyfer olyniaeth:** Dylai arianwyr annog prosiectau, fel rhan o ofynion ariannu, i nodi camau priodol i sicrhau parhad yn eu rheolaeth. Byddai prosiectau'n elwa o ymdrechion mwy eglur a chydunol i ddatblygu adnoddau yn y dyfodol sy'n ofynnol i reoli eu prosiect mewn modd cynaliadwy. Perchennog: Arianwyr a Phrosiectau.
6. **Cynnal a chadw arweiniad:** Er nad oes prinder canllawiau ar gael ar gyfer prosiectau ar hyn o bryd, mae'r amgylchedd ariannu newidiol yn ei gwneud hi'n bwysig bod

Arianwyr yn adolygu'r adnoddau hyn, yn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn adlewyrchu rheoliadau cyfredol ac arfer da. Perchennog: Arianwyr.

7. **Datblygu rhwydwaith lleol:** Dylai arianwyr ac Awdurdodau Lleol wneud mwy i hwyluso ac annog prosiectau i wneud y mwyaf o gysylltiadau â mentrau cysylltiedig eraill yn eu hardal, i leihau dyblygu, gor-gyflenwi (lle bo hynny'n berthnasol), a rhannu adnoddau a phrofiad ymhellach. Perchennog: Arianwyr, Awdurdodau lleol.
8. **Dysgu rhwng cymheiriaid a mentora:** Yn benodol, dylai arianwyr, awdurdodau lleol a phrosiectau geisio datblygu ymhellach a chynnal rhwydweithiau dysgu a mentora rhwng cymheiriaid o ansawdd da gyda gweithgareddau strwythuredig a pherthnasol. Perchennog: Arianwyr, Awdurdodau lleol a Phrosiectau.
9. **Cefnogaeth i brosiectau mewn ardaloedd trefol/ardaloedd difreintiedig:** Mae'r ymchwil yn awgrymu blaenoriaethu cefnogaeth a/neu gyngor tuag at y mudiadau hynny sy'n cael eu herio fwyaf gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd trefol, ac ardaloedd o fantais gymdeithasol/economaidd. Gall swyddogaeth rheoli cyfrifon fod yn briodol ar gyfer mudiadau mwy (mae rheolwr cyfrifon yn cynnal perthynas mudiad â chleient neu grŵp o gleientiaid). Perchennog: Arianwyr.
10. **Mabwysiadu pecynnau ariannu creadigol:** Dylai cynllunio da ystyried y model ariannu mwyaf priodol ar gyfer caffael neu adnewyddu cyfleusterau cymunedol. Gallai hyn gynnwys rhoi mwy o ystyriaeth i fuddsoddiad cymdeithasol (gan grwpiau ac Arianwyr eraill) a ffynonellau megis cyfranddaliadau cymunedol/cyllido torfol (fel modd o gynyddu cyfranogiad cymunedol). Perchennog: Arianwyr a Phrosiectau.

# Atodiadau

## A. Adolygiad llenyddiaeth

Mae copi o’r adolygiad llenyddiaeth ar gael i’w lawrlwytho yma:

documentcloud.adobe.com/link/track?uri=urn%3Aaaid%3Ascds%3AUS%3A1084ec9b-aa8c-4e01-af87-a2df5aa5bf44

## B. Canllaw pynciau I fudd-ddeiliad

Mae copi o’r Canllaw Pynciau i Fudd-ddeiliad ar gael i’w lawrlwytho yma:

documentcloud.adobe.com/link/track?uri=urn%3Aaaid%3Ascds%3AUS%3A37af7b42-ed0d-4558-b546-ce342671fe84

## C. Rhestr o ymgyngoreion

Mae rhestr o unigolion a oedd yn rhan o’r rhaglen ymgynghori yn gynwysedig yn y tabl isod (Atodiad Tabl 1).

### Atodiad tabl 1 rhestr o ymgyngoreion

| Enw | Swydd a mudiad |
|---|---|
| Berry, Neil | Cyfarwyddwr Rhaglenni, Access - The Foundation for Social Investment |
| Clarson, Dave | Ymgynghorydd annibynnol, Lloegr |
| Cooke, Ian | Cyfarwyddwr, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu'r Alban |
| Davis, Alistair | Prif Swyddog Gweithredol, Social Investment Scotland |
| Garside, Bev | Cyfarwyddwr, Empower - Support for the Voluntary Sector, Cymru |
| Holmes, Sandra | Pennaeth Asedau Cymunedol, Highlands and Islands Enterprise |
| Hunter, David | Ulster Community Investment Trust, Gogledd Iwerddon |
| Johnston, Amanda | Rheolwr Gweithrediadau ac Aelodaeth, Social Enterprise NI, Gogledd Iwerddon |
| Jones, Alun | Pennaeth Buddsoddi Cymdeithasol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| Jones, Guy | Swyddog Ariannu, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol |
| Love, Barbara | Scottish Council of Voluntary Organisations (SCVO) |
| Lovgreen, Hywel | Swyddog Ariannu, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Cymru |
| MacLeod, Lorne | Aelod Bwrdd, Scottish Land Commission |
| Miller, Gary | Rheolwr Buddsoddi (menter gymdeithasol), Greater Manchester Centre for Voluntary Organisation (GMCVO), Lloegr |
| Rolph, Stephen | Pennaeth Asedau Cymunedol a Menter, Locality |
| Scales, Jeff | Pennaeth Gwasanaethau yn y Gogledd a'r Canolbarth, Locality |

| Enw | Swydd a mudiad |
|---|---|
| Theodoulou, Mike | Cadeirydd, Y Ganolfan Adeiladu Gweithredu Cymdeithasol, Cymru |
| Williams, Peter | Cyfarwyddwr, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru |
| Wilson, Amy | Swyddog Ariannu, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol |
| Wyler, Steve | Ymgynghorydd annibynnol, Lloegr |

## D. Holiadur yr arolwg

Mae copi o holiadur yr arolwg (Cymraeg) ar gael i'w lawrlwytho yma:

documentcloud.adobe.com/link/track?uri=urn%3Aaaid%3Ascds%3AUS%3Ae39f5a12-c321-4cd7-aff5-7302a6e6c93c